
# GLASBRINT CASGLIADAU LLYWODRAETH CYMRU

# 2025



## Cynnwys

Cynnwys .... 2
1 Cyflwyniad .... 4
1.1 Amcanion .... 6
1.2 *Crynodeb o’r Glasbrint Casgliadau* .... 8
1.3 Y daith yng Nghymru .... 12
1.4 Casglu gwastraff ac ailgylchu yng Nghymru .... 13
2 Atal Gwastraff, Ailddefnyddio ac Atgyweirio .... 15
3 Casgliadau ar Garreg y Drws o Eiddo Domestig .... 16
3.1 Ailgylchu sych a gwastraff bwyd .... 16
3.1.1 Deunyddiau a gesglir .... 16
3.1.2 Cynwysyddion .... 17
3.1.3 Cerbydau .... 19
3.2 Gwastraff Gweddilliol .... 20
3.2.1 Cynhyrchion Hylendid Amsugnol (AHPs) .... 22
3.3 Gwastraff gwyrdd .... 22
3.4 Gwastraff swmpus .... 23
3.5 Fflatiau a thai amlfeddiannaeth (HMOs) .... 23
3.6 Sbwriel a glanhau strydoedd .... 24
4 Canolfannau Ailddefnyddio ac Ailgylchu (RRCs) .... 25
4.1 Blaenoriaethu ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu .... 25
4.2 Lleoliad .... 26
4.3 Deunyddiau a gesglir .... 26
4.4 Perfformiad a pholisïau .... 27
4.5 Safleoedd a banciau danfon .... 28
5 Casgliadau gwastraff annomestig .... 28
5.1 Gwastraff nad yw’n wastraff cartref mewn RRCs .... 29
6 Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant (EDI) ac anghydraddoldeb tlodi .... 29
7 Cyfathrebu .... 32
7.1 Cyfleu perfformiad i breswylwyr .... 33
8 Rheoli Adnoddau ar ôl Casglu .... 33

8.1 Gwahanu deunyddiau .... 33
8.2 Marchnata deunyddiau .... 34
8.3 Cyrchfannau terfynol a gwybodaeth am berfformiad .... 34
9 Cynnal Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff .... 35
9.1 Polisïau a phrosesau gweithredol .... 35
9.2 Hyfforddi criwiau ac ymgysylltu .... 35
9.3 Adnoddau .... 36
9.4 Iechyd a diogelwch .... 36
9.5 Depos a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff .... 37
9.6 Monitro’r gwasanaeth .... 38
Atodiad 1 – Geirfa .... 39
Atodiad 2 – Is-ffracsiynau sy’n ffurfio pob ffrwd wastraff .... 43
Atodiad 3 – Cyfeiriadau a Rhestr o Dystiolaeth .... 46

# 1 Cyflwyniad

Mae Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r dull a argymhellir ar gyfer casglu adnoddau i baratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio (gan gynnwys Treulio Anaerobig) a sut mae rheoli unrhyw wastraff sydd dros ben, er mwyn darparu'r canlyniadau cynaliadwy cyffredinol gorau yn unol â gofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*[i] Mae'r *Glasbrint Casgliadau* yn berthnasol i'r holl adnoddau a gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol neu ar eu rhan.


Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y *Glasbrint Casgliadau* gwreiddiol fel rhan o'r Cynllun Sector Trefol ym mis Mawrth 2011.[ii] Mae'r *Glasbrint Casgliadau 2025* hwn wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu arferion presennol a'r newid mewn dulliau casglu a didoli ers 2011, yn ogystal â rhoi sylw i dystiolaeth o ddatblygiadau technegol.

Pe bai gan bawb ar y blaned yr un patrwm o ran defnyddio adnoddau a chynhyrchu gwastraff â'r person cyffredin yng Nghymru yn 2010, byddai angen gwerth tri phlaned o adnoddau. Ers hynny, mae Cymru wedi gwneud cynnydd o ran atal gwastraff, defnydd cynaliadwy, cynhyrchu a'r targedau rheoli gwastraff a amlinellir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*[iii]. Yn 2023, gostyngwyd ôl troed ecolegol gwastraff yng Nghymru i fod yn gyfwerth ag ychydig dros ddwy blaned.[iv] Mae'n bolisi gan Weinidogion Cymru i newid Cymru i fod yn economi gylchol, lle mae'n defnyddio adnoddau ac yn rheoli gwastraff mewn ffordd sy'n gyson â 'byw un blaned'. Mae gwireddu hyn yn golygu bod angen i ymdrechion i sicrhau effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff fod mor agos at fod yn optimaidd ag sy'n ymarferol bosibl.

Mae'r Hierarchaeth Gwastraff statudol yn blaenoriaethu opsiynau rheoli ac atal gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau i'r amgylchedd. Mae'r Hierarchaeth Gwastraff yn un o egwyddorion craidd rheoli gwastraff yng Nghymru ac mae wedi'i nodi yn Rheoliad 12 *Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011* (fel y'u diwygiwyd 2020)[v]. Mae'n rhoi'r brif flaenoriaeth i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan fydd gwastraff yn cael ei greu, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi i'w ailddefnyddio, yna ei ailgylchu, yna ei adfer mewn ffordd arall (e.e. fel ynni a gwres), ac yn olaf un, gwaredu (e.e. tirlenwi).

Mae'r diffiniadau o atal, paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, adfer a gwaredu ar gael yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar yr Hierarchaeth Gwastraff.[vi] Dangosir yr Hierarchaeth Gwastraff yn Ffigur 1 isod.

*Ffigur 1: Yr Hierarchaeth Gwastraff*




Rhaid i'r newid i economi gylchol drwy reoli adnoddau yn y ffordd orau bosibl gael ei wneud mewn cyd-destunau economaidd, ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol i'w sicrhau drwy reoli adnoddau'n effeithlon gan gynnwys ariannu datblygiad economi sy'n rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu. Fodd bynnag, mae angen cyflawni'r enillion hyn yn erbyn cefndir o lai o gyllid ar gyfer awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach.

Yn 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru: *Mwy nag Ailgylchu*[vii]*.* Mae economi gylchol yn cadw adnoddau a deunyddiau sy'n cael eu defnyddio am gyn hired â phosibl ac yn osgoi pob gwastraff. Bydd hyn yn golygu parhau i symud oddi wrth economi linol sy'n tybio cyflenwad cyson o adnoddau naturiol, cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a gwaredu gwastraff ôl-ddefnyddwyr. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol i leihau ein hallyriadau carbon a'n gorddefnydd o adnoddau naturiol, gan helpu i wrthdroi'r

dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn hollbwysig, gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, sy'n gyson â hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae rhestr o gyfeiriadau o'r ddogfen hon a llyfryddiaeth sy'n cynnwys y dystiolaeth allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi seilio ei dull o gasglu adnoddau a gwastraff arni, a rhesymeg ei dull gweithredu, i'w gweld yn Atodiad 3 – Cyfeiriadau a Rhestr o Dystiolaeth.

## 1.1 Amcanion

Nod y *Glasbrint Casgliadau* yw hyrwyddo'r broses o gasglu deunyddiau mewn ffyrdd sy'n:

- cefnogi'r symudiad tuag at economi gylchol a byw o fewn terfynau ein planed;
- sicrhau bod gwasanaeth ailgylchu a gwastraff yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n llawn at sero net[viii], nid yn unig ar gyfer allyriadau'r sector gwastraff, ond hefyd ar gyfer allyriadau mewn sectorau eraill, yn enwedig diwydiant a busnes, a'r sector cyhoeddus;
- hyrwyddo'r economi gylchol leol i helpu i wella cydnerthedd economaidd, gwella cyfleoedd economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth, a gwell canlyniadau amgylcheddol;
- gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyflenwi gwasanaethau awdurdodau lleol, fel bod y gwaith o reoli adnoddau trefol yn gynaliadwy yn ariannol, yn ogystal â sicrhau manteision amgylcheddol ac economaidd.

Y dull gweithredu cyffredinol a argymhellir gan Lywodraeth Cymru yw bod pob agwedd ar gasglu (ailgylchu yn y cartref a chasgliadau gwastraff, canolfannau ailddefnyddio ac ailgylchu, safleoedd danfon gwastraff, casgliadau swmpus, casgliadau gwastraff ac ailgylchu nad ydynt o gartrefi, a chasgliadau sbwriel) yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig i ddarparu gwasanaethau rheoli ac adnoddau o ansawdd uchel am y costau uned isaf sy'n ymarferol.

Bydd y *Glasbrint Casgliadau* yn parhau i gael ei ddiweddaru i ystyried datblygiadau mewn technolegau a deddfwriaeth a'i fwriad yw helpu awdurdodau lleol Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfuno fforddiadwyedd ariannol â'r canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gorau.

Os ydym am symud ymlaen tuag at economi wirioneddol gylchol, bydd angen i newid o'r fath fod yn barhaus ac ni ddylem fyth fod mewn sefyllfa heb gyfres newydd o newidiadau ar y gorwel. Adeg cyhoeddi, mae nifer o newidiadau polisi pwysig ar y

gweill gan gynnwys yr angen i gyflawni sero net ar gyfer y sectorau gwastraff a sectorau eraill, y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr Deunydd Pacio, y Cynllun Dychwelyd Ernes a chynigion i ymestyn y Cynllun Masnachu Allyriadau i gynnwys llosgi gwastraff. Pan ddaw'r polisïau hyn i rym, byddant yn achosi newidiadau pellach i'r system a amlinellir yn y *Glasbrint Casgliadau* 2025.

Nid llawlyfr cyfarwyddiadau mohono; fe'i bwriedir i helpu awdurdodau lleol Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfuno ffforddiadwyedd ariannol â'r canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol gorau.

Er bod y *Glasbrint Casgliadau* yn un cynghorol yn hytrach na gofyniad deddfwriaethol, y bwriad yw nodi beth, yn ein profiad ar y cyd ledled Cymru, yw'r arferion gorau o ran cyflawni yn erbyn amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu trefol a chasglu gwastraff.

## 1.2 *Crynodeb o'r Glasbrint Casgliadau*

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r mesurau atal gwastraff, paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a phroffil gwasanaeth gwastraff a argymhellir ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru – dim ond crynodeb yw'r tabl hwn ac ymdrinnir â phob adran yn fanylach ym mhrif gorff y ddogfen.

*Tabl 1: Crynodeb o'r Glasbrint Casgliadau*

| Agwedd | Safon gwasanaeth sylfaenol |
|---|---|
| Atal gwastraff, ailddefnyddio ac atgyweirio | • Dylai awdurdodau lleol hyrwyddo atal gwastraff ymhlith trigolion drwy ddarparu gwybodaeth am gynlluniau lleol, canllawiau cenedlaethol a digwyddiadau.<br>• Dylai siopau ailddefnyddio ac opsiynau ar gyfer atgyweirio gael eu hyrwyddo gan yr awdurdod lleol.<br>• Dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu. |
| Ailgylchu Sych | • Cyflwyniad ar wahân ar garreg y drws o dan system 'didoli ar garreg y drws'. Mae'r deunyddiau i'w casglu yn cynnwys papur a chardfwrdd; poteli plastig, potiau, tybiau a hambyrddau; tuniau metel, caniau, erosolau a ffoil; cartonau a chynhyrchion cyfansawdd papur eraill; a jariau gwydr a photeli.<br>• Dylid casglu deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu ar garreg y drws bob wythnos.<br>• Gwirio ansawdd deunydd eildro sych wrth lwytho ar gerbydau, gan sicrhau'r halogi lleiaf posibl drwy wrthod deunyddiau nad ydynt yn cydymffurfio ar unwaith ac adborth ar unwaith i'r preswylwyr.<br>• Darparu tri neu fwy o gynwysyddion ailgylchu sych y gellir eu hailddefnyddio yn ddelfrydol i bob cartref er mwyn cadw deunyddiau ar wahân.<br>• Sicrhau bod pob aelwyd yn cael digon o gapasiti ar gyfer pob ffrwd.<br>• Ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion yr holl gymunedau a thrigolion. |
| Gwastraff bwyd | • Dylid cynnwys gweithgareddau atal gwastraff bwyd mewn cyfathrebiadau rheolaidd.<br>• Casglu gwastraff bwyd ar wahân bob wythnos.<br>• Dylid darparu cadi cegin mewnol a chynwysyddion casglu ar garreg y drws y gellir eu cloi. |

| Agwedd | Safon gwasanaeth sylfaenol |
|---|---|
| | • Darparu bagiau leinio gwastraff bwyd yn rhad ac am ddim i breswylwyr. |
| Cerbydau casglu | • Canolbwyntio ar y ffordd fwyaf effeithlon o gasglu a chyflawni canlyniadau (cael deunydd eildro o ansawdd uchel drwy wirio/gwrthod/trefnu deunydd ar garreg y drws yn hytrach nag yn ôl math penodol o gerbyd).<br>• Cerbydau un casgliad yw'r ffordd a argymhellir o gyflawni hyn ar gyfer ailgylchu sych a gwastraff bwyd.<br>• Dylai awdurdodau lleol sy'n caffael a newid fflyd wneud hynny yn unol â'r ymrwymiad i'r sector cyhoeddus fod yn Sero Net erbyn 2030[ix], a'r dewis diofyn yw Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) ar gyfer cerbydau newydd. |
| Gwastraff Gweddilliol | • Gyda mwy o ailgylchu a llai o ddeunydd yn cael ei waredu, mae angen llawer llai o gapasiti gweddilliol.<br>• Mae'r casglu unwaith bob 3 i 4 wythnos yn ddigonol a dylid osgoi casglu'n amlach fel nad yw'n tanseilio effeithiolrwydd y gwasanaeth ailgylchu a ddarperir.<br>• Mae capasiti gwastraff gweddilliol sy'n cyfateb i 60L, neu lai, yr wythnos yn ddigonol ar gyfer y gwasanaeth safonol.<br>• Ystyried pwyso ar y cerbyd i gasglu data ar gyfer casgliadau gweddilliol.<br>• Ystyried dull gorfodi gan gynnwys dyletswyddau landlordiaid myfyrwyr.<br>• Dylid mynd ati i orfodi polisïau gwastraff gweddilliol.<br>• Sicrhau bod polisïau clir ar waith ar gyfer aelwydydd sydd angen capasiti ychwanegol. |
| AHPs | • Dylid cyfeirio at opsiynau cewynnau y gellir eu hailddefnyddio a llyfrgelloedd cewynnau, ac ystyried cefnogi'r gweithgareddau hyn.<br>• Dylid darparu casgliad AHP ar wahân. |
| Gwastraff gardd | • Hyrwyddo a chefnogi compostio gartref/trin gwastraff gardd.<br>• Gellir codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd i annog compostio gartref (fel y caniateir dan Reoliadau Gwastraff a Reolir (2012)[x]).<br>• Dylai'r casgliadau fod yn rheolaidd, gan gynnwys lleihau amlder yn y gaeaf lle bo hynny'n briodol. |

| Agwedd | Safon gwasanaeth sylfaenol |
|---|---|
| Casgliadau swmpus | • Dylai rheoli gwastraff swmpus i'w ailddefnyddio a'i ailgylchu fod yn flaenoriaeth, gyda gwaredu yn ddewis olaf, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.<br>• Ni ddylai casgliadau swmpus gael eu danfon yn uniongyrchol i gyfleusterau gwaredu.<br>• Ystyried cydraddoldeb o ran anghenion preswylwyr ar aelwydydd incwm isel a'r rheini sydd heb fynediad at gerbydau.<br>• Dylid ystyried partneriaethau ailddefnyddio gyda sefydliadau priodol. |
| Fflatiau | • Dylai'r gwasanaeth ar gyfer eiddo sydd â chasgliadau cymunedol fod mor debyg i'r prif wasanaeth ar garreg y drws ag sy'n ymarferol.<br>• Dylid anelu at gasglu'r holl ddeunyddiau ar garreg y drws.<br>• Amlder casglu wythnosol ar gyfer ailgylchu a gwastraff bwyd.<br>• Capasiti gweddilliol wedi'i gyfyngu yn unol â'r gwasanaeth ar garreg y drws.<br>• Mae angen ystyried dyletswyddau landlordiaid yn y gwasanaeth fflatiau, gan gynnwys darparu storfeydd biniau diogel sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. |
| Canolfannau ailddefnyddio ac ailgylchu | • Sicrhau lefel o 85% o leiaf o ailgylchu ac ailddefnyddio ym mhob Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu (RRC).<br>• Cynnwys polisïau priodol i reoli a lleihau gwastraff gweddilliol heb ei ddidoli a dderbynnir ar y safle.<br>• Ei gwneud yn haws i bob preswylydd gael mynediad at gyfleusterau i leihau allyriadau $CO_2$ teithio ac annog mwy o ailgylchu. Amcanu at rannu ag awdurdodau cyfagos lle bo hynny'n briodol.<br>• Fel isafswm, dylai safleoedd dderbyn a meddu ar gyfleusterau i dderbyn a storio ar wahân: gwydr, metelau, papur, cardfwrdd, pren, gwastraff gwyrdd/gardd, agregau, priddoedd, deunydd pacio plastig, plastig caled, tecstilau, matresi, carpedi, olew mwynol, olew llysiau, ac eitemau y gellir eu hailddefnyddio.<br>• Darparu o leiaf un RRC sy'n derbyn gwastraff peryglus e.e. WEEE, bylbiau/tiwbiau golau fflwroleuol, paent/toddyddion/gwastraff peryglus arall o gartrefi, asbestos wedi'i fondio.<br>• Ystyried EDI o ran hygyrchedd, perchnogaeth ceir a gwahardd faniau.<br>• Ystyried siopau ailddefnyddio neu fannau gollwng mewn RRC ac yng nghanol trefi fel rhan o rwydwaith ailddefnyddio ehangach. |

| **Agwedd** | **Safon gwasanaeth sylfaenol** |
|---|---|
| Gwastraff annomestig | • Rhaid darparu gwasanaethau gwastraff masnach yn unol â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle[xi].<br>• Gellir ystyried derbyn rhai deunyddiau ailgylchu masnachol mewn RRC, gan sicrhau bod yr opsiwn yn cael ei gostio'n llawn. (Nid yw hyn yn disodli'r ddyletswydd i gasglu dan y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) | • Rhaid ystyried sut mae'r gwasanaethau'n effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a sicrhau nad oes unrhyw grŵp dan anfantais annheg neu wedi'i eithrio rhag cael mynediad at y gwasanaeth.<br>• Dylid darparu capasiti ychwanegol a chasgliadau â chymorth lle bo hynny'n briodol a dylid eu hadolygu'n gyfnodol |
| Cyfathrebu | • Dylai'r cyfathrebu â phreswylwyr fod yn rheolaidd.<br>• Dylid sefydlu adnodd cyfathrebu pwrpasol gyda chyllideb flynyddol.<br>• Dylid manteisio ar gyfleoedd addysg drwy ysgolion a cholegau lle bo hynny'n bosibl.<br>• Dylid defnyddio asedau ymgyrchoedd cenedlaethol lle bo hynny'n briodol i sicrhau bod gwybodaeth yn atgyfnerthu'r negeseuon safonol ledled Cymru.<br>• Dylid rhoi adborth ar berfformiad i'r preswylwyr. |
| Rheoli a chynnal gwasanaeth | • Mae angen i'r gwasanaeth gael ei reoli a'i fonitro'n ddigonol.<br>• Dylai polisïau priodol fod ar waith, a dylid eu gorfodi'n weithredol.<br>• Dylai prosesau a gweithdrefnau fod ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.<br>• Rhaid i gerbydau a chyfarpar gael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u harchwilio'n rheolaidd gan gadw cofnodion.<br>• Rhaid i gerbydau gael eu gwasanaethu gan ddepos sydd wedi'u dylunio ac yn gweithredu'n briodol, er mwyn o leiaf didoli ar ôl casglu a pharatoi deunyddiau i'w gwerthu a'u cludo ymlaen i ailbroseswyr.<br>• Dylid monitro perfformiad y gwasanaeth.<br>• Dylai cynlluniau fod ar waith ar gyfer datgarboneiddio'r gwasanaeth yn unol â'r ymrwymiad i Sector Cyhoeddus Sero Net erbyn 2030. |

## 1.3 Y daith yng Nghymru


Ddechrau'r 2000au, roedd faint o wastraff cartref a gasglwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynyddu'n gyson. Sefydlogodd y swm yng nghanol y 2000au ac, yn gyffredinol, gostyngodd ar ôl hynny. Yn 2023-24 casglodd awdurdodau lleol Cymru 1.4M tunnell o Wastraff Solet Trefol, i lawr o uchafbwynt o 1.8M tunnell yn 2004-05.

Mae'r data bellach yn dangos bod cyfran gynyddol o'r gwastraff sy'n cael ei reoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael ei anfon i'w baratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio. Cyn datganoli ym 1999, Cymru oedd un o'r ailgylchwyr gwaethaf yn y byd, gan ailgylchu tua 5% o wastraff trefol. Mae hyn wedi codi i gyfradd o 66.6% yn 2023-2024, gyda Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau statudol i awdurdodau lleol ailgylchu o leiaf 64% o'r gwastraff erbyn 2019-20, a 70% o'r gwastraff erbyn 2024-25.

O ran perfformiad ailgylchu, mae Cymru yn gyntaf yn y DU, ac mae bellach yn ail yn y byd, y tu ôl i Awstria yn unig.[xii]

Mae Ffigur 2 isod yn dangos y cynnydd yng nghyfradd ailgylchu gwastraff trefol Cenedlaethol Cymru ochr yn ochr â'r targedau statudol rhwng 2000 a 2024.

*Ffigur 2: Gwastraff trefol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol a Baratowyd ar gyfer ailddefnyddio/ailgylchu/compostio yng Nghymru[1] (2000-2024)*




[1] O 1 Ebrill 2012 ymlaen, cafwyd newidiadau mewn diffiniadau sy'n ymwneud â gwastraff trefol awdurdod lleol a gynhyrchwyd a'r dull o gyfrifo'r ganran a baratowyd ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth cyn 2012-13 yn ymwneud â gwastraff yr adroddwyd ei fod wedi'i gasglu ar gyfer ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio. Ond o 2012-13 ymlaen mae'n ymwneud â gwastraff yr adroddwyd ei fod wedi'i anfon i'w baratoi i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio.

### 1.4 Casglu gwastraff ac ailgylchu yng Nghymru

Ers cyhoeddi'r *Glasbrint Casgliadau* ym mis Mawrth 2011, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r dull gweithredu.

Yng nghanol 2024, roedd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn:

- casglu set graidd o ddeunyddiau ailgylchu sych gan drigolion ar garreg y drws;
- darparu casgliadau gwastraff bwyd ar wahân ar gyfer eu trigolion, sy'n cwmpasu 99.8% o gartrefi yng Nghymru;
- darparu bagiau leinio gwastraff bwyd am ddim i'w trigolion;
- cynnig cyfleoedd i drigolion roi eitemau y gellir eu hailddefnyddio o leiaf yn un o'u RRC;
- meddu ar o leiaf un RRC sy'n derbyn amrywiaeth o wastraff peryglus o gartrefi.


Ganol 2024, o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd:

- 15 yn darparu casgliad sengl aml-ffrwd ar garreg y drws yn unol â'r *Glasbrint Casgliadau*;
- 2 wrthi'n newid i un casgliad aml-ffrwd ar garreg y drws yn unol â'r *Glasbrint Casgliadau*;
- 2 yn darparu gwasanaeth aml-ffrwd nad yw'n cynnwys un casgliad[2];
- 1 wrthi'n newid o fod yn gymysgu i fod yn aml-ffrwd;
- 2 yn gweithredu gwasanaeth cymysg.

Dangosir maint y newid rhwng 2010 a 2024 yn Ffigur 3.

[2]Cesglir deunyddiau ar wahân gan ddefnyddio cerbydau lluosog, yn hytrach nag un cerbyd mewn un daith.

*Ffigur 3: Dull Casglu ar Garreg y Drws ar gyfer Ailgylchu Cartrefi yng Nghymru fesul Awdurdod Lleol – Blynyddoedd Ariannol 2010/11 a 2023/24*




Ffynhonnell: WRAP Cymru'

Mae'r dull gweithredu mwy cyson ar gyfer casgliadau ledled Cymru yn creu manteision yn ei sgil, gan gynnwys rhannu arferion gorau, cyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd a chaffael asedau ar y cyd, darparu gwasanaethau ar y cyd ar draws ffiniau presennol awdurdodau lleol a'r gallu i hyrwyddo negeseuon cyson ar draws y wlad. Mae hyn yn cael ei wella ymhellach gan yr aliniad â'r rheoliadau sydd bellach ar waith ar gyfer Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru, sydd wedi cael ei hysbysu gan ddull gweithredu'r Glasbrint.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r dull a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu adnoddau a gwastraff – y *Glasbrint Casgliadau*.

## 2 Atal Gwastraff, Ailddefnyddio ac Atgyweirio

Dylai gwasanaeth gynnwys darparu mesurau ymarferol i hyrwyddo atal gwastraff, gan gynnwys ailddefnyddio ac atgyweirio, i ategu'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff.

Mae gweithgareddau atal gwastraff yn ategu'r gwasanaeth casglu ac yn helpu i leihau costau casglu awdurdodau lleol ymhellach, yn ogystal â sicrhau manteision amgylcheddol a chymdeithasol allweddol. Gallant hefyd helpu dinasyddion i arbed arian.

Gan adeiladu ar lwyddiant Cymru o ran prif-ffrydio ailgylchu, symud ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff statudol a chyflawni yn unol â strategaeth *Mwy nag Ailgylchu* Llywodraeth Cymru, rhaid ystyried hefyd y seilwaith a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer atgyweirio ac ailddefnyddio.

Y safon sylfaenol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru i annog atal gwastraff, ailddefnyddio ac atgyweirio yw:

- dylid cynnwys gwybodaeth glir ar wefannau awdurdodau lleol am y camau y gellir eu cymryd i leihau gwastraff;
- dylai awdurdodau lleol hyrwyddo atal gwastraff ymhlith trigolion drwy ddarparu gwybodaeth am gynlluniau lleol, canllawiau cenedlaethol a digwyddiadau;
- dylai fod gan bob ardal awdurdod lleol rwydwaith o fannau ailddefnyddio i alluogi dinasyddion i roi eitemau i'w hailddefnyddio neu eu trwsio, gan ystyried hygyrchedd;
- dylai awdurdodau lleol gyfeirio at sefydliadau a gweithgareddau atgyweirio ac ailddefnyddio yn eu hardal;
- o leiaf un hyb ailddefnyddio ac atgyweirio mewn RRC neu yng nghanol tref.

Gellir annog atal gwastraff, ailddefnyddio ac atgyweirio yn y ffyrdd canlynol:

- darparu rhwydwaith ailddefnyddio a all gynnwys mannau gollwng neu siopau mewn RRC, siopau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi a/neu bartneriaethau â sefydliadau trydydd sector i wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch;
- dylid cynllunio a rheoli gwasanaethau casglu gwastraff swmpus cyn belled ag y bo modd i sicrhau bod eitemau a gesglir yn cael eu hailddefnyddio neu eu hatgyweirio;
- mae enghreifftiau o hyrwyddo atal gwastraff yn cynnwys ymgyrchoedd atal gwastraff fel Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff sydd â'r nod o leihau gwastraff bwyd;

- gall darparu talebau cewynnau y gellir eu hailddefnyddio neu lyfrgelloedd cewynnau helpu i leihau’r defnydd o gewynnau untro. Mae padiau anymataliaeth a weips gwlyb y gellir eu hailddefnyddio ar gael hefyd;
- cefnogi urddas mislif a hyrwyddo cynhyrchion mislif amldro;
- gellir hyrwyddo compostio gwastraff gardd yn y cartref drwy werthu biniau compostio cartref â chymhorthdal;
- gellir darparu mannau ail-ddefnyddio cymunedol mewn RRC;
- gall awdurdodau lleol ddarparu cymorth ar gyfer gweithgareddau ailddefnyddio cymunedol e.e. caffis atgyweirio, llyfrgelloedd pethau, mannau ail-weithgynhyrchu ac ail-greu, storfeydd sgrap, siopau elusen, gwerthiannau cist car, gwerthiannau dillad plant bron yn newydd, ac ati ar dir awdurdod lleol;
- gellir cefnogi cymunedau lleol i sefydlu grwpiau gwerthu, cyfnewid a rhannu cymunedol ar gyfryngau cymdeithasol – o bosibl drwy gynghorau tref a chymuned neu ysgolion, a all fod yn bwysig o ran arbed arian i aelwydydd a gwella mynediad at weithgareddau ar gyfer pobl o gymunedau difreintiedig e.e. drwy gyfnewid gwisgoedd, prosiectau cyfnewid beiciau, digwyddiadau dros dro, ac ati;
- hyrwyddo storfeydd ail-lenwi di-wastraff i leihau’r defnydd o ddeunydd pacio plastig ac annog pobl i ddefnyddio cynwysyddion y gellir eu hail-lenwi ar gyfer siopa bwyd/pethau ymolchi;
- gellir annog a chyfeirio at fannau ail-lenwi dŵr er mwyn helpu i leihau’r defnydd o boteli untro. Dylai hyn gynnwys lleoliadau priodol ar ystâd yr awdurdod lleol ei hun.

# 3 Casgliadau ar Garreg y Drws o Eiddo Domestig

## 3.1 Ailgylchu sych a gwastraff bwyd

### 3.1.1 Deunyddiau a gesglir

Mae’r deunyddiau y gellir eu hailgylchu yr argymhellir eu casglu mewn ffrydiau ar wahân yn cynnwys, o leiaf:

- gwastraff bwyd;
- papur a cherdyn (naill ai ar y cyd neu ar wahân);
- poteli a jariau gwydr;
- tuniau a chaniau metel, erosolau a ffoil; potiau, poteli plastig, tybiau a hambyrddau; a chartonau a phethau tebyg.

Gellir cynnwys y deunyddiau ychwanegol canlynol hefyd os oes cynhwysydd priodol ar gael i’w cadw’n sych a gwarchod eu hansawdd, a gellir dod o hyd i ailbroseswyr priodol:

- tecstilau;
- offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) gan gynnwys fêps;
- batris;

Dylai casgliadau tecstilau a sWEEE flaenoriaethu paratoi ar gyfer ailddefnyddio ar draul ailgylchu lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau'r buddion gorau posibl yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

Gallai casglu batris, sWEEE a fêps ar wahân helpu i leihau'r risg o danau pan fydd eitemau sy'n cynnwys batris lithiwm-ïon yn cael eu rhoi mewn gwastraff gweddilliol, neu yn y ffrwd ailgylchu anghywir.

Dylid hefyd ystyried y gofyniad arfaethedig o dan y pecyn Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (pEPR) i gasglu ffilmiau plastig hyblyg o garreg y drws o 2027 ymlaen.

Mae dull didoli ar garreg y drws yn galluogi casglwyr i wrthod eitemau anghywir wrth gasglu a rhoi adborth i breswylwyr ynghylch pa eitemau y dylid eu rhoi allan i'w casglu a pha eitemau sy'n halogi, gan annog ailgylchu o ansawdd uchel. Mae dull cyson o gasglu yng Nghymru hefyd yn lleihau dryswch posibl ymysg trigolion ac mae didoli ar garreg y drws yn cynhyrchu deunyddiau crai dibynadwy o ansawdd uchel ar gyfer ailbroseswyr yng Nghymru.

Mae rhagor o fanylion am ba fathau o ddeunyddiau (is-ffracsiynau) y dylid eu cynnwys ym mhob ffrwd gwastraff y gellir ei ailgylchu ar gael yn Atodiad 2 – Is-ffracsiynau sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff.

### 3.1.2 Cynwysyddion

Nid oes isafswm na chapasiti a argymhellir ar gyfer darpariaeth ailgylchu sych yng Nghymru. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i aelwydydd gynnwys yr holl eitemau y gellir eu hailgylchu y maent yn eu cynhyrchu. Fel arfer, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu 150L-250L o gapasiti ailgylchu sych i'w trigolion bob wythnos, yn ogystal â 23L o gapasiti ar gyfer gwastraff bwyd wythnosol.

Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar y cynwysyddion mwyaf addas ar gyfer eiddo yn eu hardaloedd. Mae'n bosibl y bydd cymysgedd o gynwysyddion yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ardaloedd yn yr un awdurdod lleol, yn dibynnu ar y mathau o dai.

Mae dewis o gynwysyddion ar gael ar gyfer gwasanaethau ailgylchu didoli ar garreg y drws, gan gynnwys bocsys, bocsys y gellir eu pentyrru, sachau hesian y gellir eu hailddefnyddio a sachau plastig untro. Mae manteision ac anfanteision i bob un ond mae cynnal ansawdd deunyddiau yn hollbwysig. Er enghraifft, mae angen i gynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer papur a cherdyn ddiogelu'r deunyddiau rhag y

tywydd. Mae caeadau neu rwydi yn aml yn cael eu defnyddio i sicrhau bod deunydd ailgylchu yn aros yn y cynwysyddion ac osgoi cyfrannu at sbwriel, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael tywydd gwyntog fel ardaloedd arfordirol. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio bagiau amldro â phwysau ar gyfer deunyddiau am y rheswm olaf.

Fodd bynnag, dylid osgoi defnyddio bagiau plastig untro i gynnwys deunydd ailgylchu sych lle bo hynny'n bosibl, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru[xiii] i ddileu'n raddol eitemau plastig untro diangen yng Nghymru fel cam allweddol mewn perthynas â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Dylai proses gaffael cynwysyddion ystyried yr ymrwymiadau Mwy nag Ailgylchu i wneud y gwasanaeth mor effeithlon â phosibl o ran adnoddau a'i rôl yn y galw am ddeunyddiau. Dylent fod wedi'u gwneud o ddeunydd eilgylch neu o leiaf fod â chynnwys uchel wedi'i ailgylchu. Argymhellir Fframwaith Bagiau Gwastraff, Cynhyrchion Ailgylchu a Ffedogau y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol[xiv]. Mae'r Fframwaith hwn yn cynnig llwybr cyflym, syml a chystadleuol i gwsmeriaid at amrywiaeth eang o gynhyrchion a ffedogau casglu gwastraff. Mae'r Fframwaith yn cynnig mynediad at gwmnïau sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw ac sydd wedi cael eu hasesu'n drylwyr ar ansawdd eu cynnyrch, a'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu.

Mae arferion da wedi newid ers 2011. Mae awdurdodau lleol yn didoli llai ar wahanol is-ffracsiynau deunyddiau gwastraff ar garreg y drws. Mae hyn wedi datblygu drwy brofiad ac mae gweithredu casgliadau nawr yn symlach ac yn fwy effeithlon. Ychydig iawn o awdurdodau sy'n didoli deunydd ailgylchu sych mewn blwch cymysg â llaw ar garreg y drws. Gellir casglu rhai deunyddiau gyda'i gilydd, os gellir gwahanu'n effeithiol ac yn effeithlon heb golli ansawdd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol bellach yn casglu deunydd pacio plastig anhyblyg a metelau gyda'i gilydd. Gellir cydgasglu deunydd pacio metel, deunydd pacio plastig anhyblyg a chartonau a'i wahanu ar ôl ei gasglu mewn gorsaf ddidoli. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod llwytho'r gwahanol ddeunydd eildro sych ar gerbydau yn sicrhau'r halogi lleiaf posibl drwy wrthod deunyddiau nad ydynt yn cydymffurfio ar unwaith, a rhoi adborth ar unwaith i'r preswylwyr.

Roedd y *Glasbrint Casgliadau* yn argymell yn flaenorol y dylid casglu deunydd ailgylchu sych gan ddefnyddio 2 flwch neu fwy. Gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru bellach yn darparu o leiaf dri chynhwysydd gwahanol i bob cartref, mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ddiweddaru i dri chynhwysydd neu fwy i hwyluso'r gwaith o gasglu'r ffrydiau deunydd canlynol ar wahân: papur a cherdyn, gwydr, a phlastig/metel cymysg. Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â'r gwahanu a ragnodir mewn rheoliadau sy'n berthnasol i eiddo annomestig yng Nghymru, fel y trafodir yn Adran 5.

Ar ben hynny, os bydd deunyddiau ychwanegol yn cael eu casglu hefyd, efallai y bydd cynwysyddion ychwanegol fel bagiau batris y gellir eu hailddefnyddio hefyd yn cael eu darparu. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod deunyddiau'n cael eu cadw ar wahân ac yn lân i ddarparu ansawdd uchel ac incwm uwch o'r deunyddiau a gesglir.

Dylid casglu gwastraff bwyd ar wahân ac yn wythnosol, ac ni ddylid ei gymysgu â gwastraff gwyrdd. Argymhellir bod awdurdodau lleol yn darparu cadi cegin i breswylwyr ar gyfer storio gwastraff bwyd dan do a dylid defnyddio cadi mwy o faint i storio gwastraff bwyd ar garreg y drws cyn ei gasglu. Dylid anfon gwastraff bwyd i safle treulio anaerobig (AD) i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffurf biomethan. Os yw'r allbynnau'n bodloni fframwaith diwedd gwastraff perthnasol, gan gynnwys yr ardystiadau ategol a defnydd y farchnad, yna gall y broses gynhyrchu gwrtaith organig yn ogystal â biomethan.

Dylai awdurdodau lleol ddarparu cadi cegin am ddim i breswylwyr. Gellir ystyried bagiau leinio plastig dim ond ar gyfer prosesau Treulio Anaerobig sydd wedi cytuno i'w cynnwys, ac sy'n gallu sicrhau bod y gweddillion treuliad anaerobig a gynhyrchir gan y broses treulio anaerobig yn bodloni'r safon briodol (BSI PAS 110).

Ni ddylai gwasanaethau casglu gwastraff bwyd dargedu deunyddiau fel papur cegin, napcynau papur, na deunydd pecynnu cynnyrch y gellir ei gompostio'n fasnachol oni bai fod gweithredwr y cyfleuster treulio anaerobig yn gallu ei dderbyn. Gall preswylwyr sy'n compostio gartref roi papur cegin a napcynau papur yn eu bin compostio gartref.

### 3.1.3 Cerbydau

Argymhellir casglu gwastraff bwyd a deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu bob wythnos gan ddefnyddio dull didoli ar garreg y drws gyda cherbyd casglu adnoddau un casgliad (RRV).

Dylai awdurdodau lleol Cymru ganolbwyntio ar gasglu deunyddiau yn y ffordd fwyaf effeithlon o ran carbon ac ar gasglu deunydd eilgylch o ansawdd uchel. Mae llawer o awdurdodau lleol Cymru yn casglu gwastraff bwyd a deunyddiau sych y gellir eu hailgylchu ar yr un pryd gan ddefnyddio RRV un casgliad. Mae RRVs yn gymharol ysgafn ac yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac mae ganddynt allyriadau CO2 is na cherbydau casglu sbwriel traddodiadol (RCVs).

Mae RRVs yn cael eu cynhyrchu mewn gwahanol feintiau a gellir eu defnyddio ym mhob sefyllfa bron. Maent hefyd yn caniatáu casglu deunyddiau ychwanegol – er enghraifft tecstilau, WEEE bach a batris.

Gall cerbydau sy'n didoli ar garreg y drws, fel RRVs gymryd mwy o amser i deithio i lawr strydoedd a ffyrdd pan fyddant yn casglu o'u cymharu â cherbydau fel RCVs sy'n casglu deunyddiau wedi'u cymysgu. Gellir lliniaru effeithiau hyn drwy gynllunio llwybrau'n ofalus a rheolaeth weithredol[xv].

Ar ôl casglu deunyddiau'n ofalus, rhaid i'r RRVs gael eu gwasanaethu gan ddepos sydd wedi'u dylunio ac yn gweithredu'n briodol, i wneud unrhyw waith didoli angenrheidiol ar ôl casglu a pharatoi deunyddiau i'w gwerthu a'u cludo ymlaen i ailbroseswyr. Mae Ymchwilwedi dangos, yn ogystal â bod o ansawdd uwch oherwydd llai o halogi, bod deunyddiau sy'n cael eu casglu drwy ddidoli ar garreg y drws hefyd yn tueddu i ddod o hyd i farchnadoedd sy'n nes at ble maen nhw'n cael eu casglu na'r un deunyddiau sy'n cael eu casglu ar y cyd[xvi]. Ar ben hynny, mae mwy o ddeunyddiau sy'n cael eu casglu drwy ddidoli ar garreg y drws yn mynd i gael eu hailgylchu drwy system dolen gaeedig nag sy'n digwydd gyda deunyddiau sy'n cael eu casglu ar y cyd.

Gellir ystyried dulliau eraill o weithredu cerbydau sy'n cyflawni canlyniadau'r *Glasbrint Casgliadau* ac sy'n amlwg yn fwy effeithlon o ran carbon.

Mae fersiynau allyriadau isel iawn o gerbydau casglu, gan gynnwys RRVs a RCVs, wedi dod ar gael dros y blynyddoedd diwethaf, gan leihau allyriadau ymhellach. Dylai fod gan awdurdodau lleol gynllun ar gyfer newid eu fflyd gyfan i gyflawni yn erbyn targed sero net 2030. Yn ymarferol, mae hyn bellach yn golygu mai'r dewis diofyn yw Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) ar gyfer unrhyw gerbydau newydd. Mae gwaith i ddatgarboneiddio'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff, gan gynnwys drwy gyflwyno ULEV, yn mynd rhagddo ledled Cymru. Dylid hefyd ystyried gosod seilwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy effeithiol mewn lleoliadau gwastraff ac ailgylchu.

## 3.2 Gwastraff Gweddilliol

Gyda mwy a mwy o ddeunydd yn cael ei gasglu o gartrefi fel deunydd ailgylchu, mae'n golygu bod angen i lawer llai o ddeunydd gael ei waredu, felly o ganlyniad mae angen llawer llai o gapasiti cynwysyddion gweddilliol. Fodd bynnag, os caiff capasiti gweddilliol ei gynnal ar lefel sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol, gall arwain at y canlyniad anfwriadol o atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau ailgylchu.

Yn 2011, roedd y *Glasbrint Casgliadau*, felly, yn nodi, er mwyn cynyddu faint o ddeunydd sy'n cael ei wahanu i'w ailgylchu a lleihau allyriadau, y dylid lleihau capasiti cynwysyddion gwastraff gweddilliol neu amlder casglu – mae hyn yn parhau i fod yn wir yn y *Glasbrint Casgliadau* ar gyfer 2025.

Gellir lleihau capasiti gwastraff gweddilliol mewn tair ffordd:

- Lleihau nifer y cynwysyddion gwastraff gweddilliol a gesglir – sachau sbwriel yn bennaf;
- Lleihau maint y cynwysyddion gwastraff gweddilliol a ddefnyddir – biniau olwynion yn bennaf;
- Lleihau amlder casglu gwastraff gweddilliol.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o gyflwyno cyfyngiadau ar gapasiti neu amlder gwastraff gweddilliol yn dangos ei bod yn well gwneud hynny ochr yn ochr â gweithredu gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr yn hytrach nag aros tan ar ôl hynny. Dylai newid yn y casgliadau gweddilliol hefyd gael ei gefnogi gan gyfathrebu clir sy'n tynnu sylw at y berthynas â'r casgliadau ailgylchu, ynghyd ag addysg briodol a chamau gorfodi dilynol i sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.

Gyda mwy o ailgylchu a llai o ddeunydd yn cael ei waredu, mae angen llawer llai o gapasiti gweddilliol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes wedi cymryd camau i gyfyngu ar faint o wastraff gweddilliol a gesglir. Ganol 2024, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol ar garreg y drws bob 3 wythnos neu 4 wythnos i'w trigolion. Ar ben hynny, mae rhai awdurdodau sydd wedi cadw casgliadau bob pythefnos wedi cyfyngu ar faint o wastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu drwy gyflwyno biniau olwynion llai, neu drwy gyfyngu ar nifer y sachau gwastraff y gellir eu cyflwyno.

Mater i'w benderfynu gan awdurdodau lleol unigol, yn ôl eu hanghenion, yw defnyddio biniau olwynion neu sachau i storio gwastraff gweddilliol. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gallai defnyddio sachau gyfyngu ar bwysau'r gwastraff gweddilliol a roddir allan, ac felly'n cynyddu'r gyfradd ailgylchu, gyda'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau ar gyfer ailgylchu gwastraff bwyd i gyd yn casglu sachau ar gyfer gwastraff gweddilliol.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gorfodi amlder casglu gwastraff gweddilliol, mae'n cefnogi'n gryf y mesurau a gymerir gan awdurdodau lleol i gyfyngu ar gasglu gwastraff gweddilliol, boed hynny yn ôl amledd neu gapasiti, gan fod gan awdurdodau lleol yng Nghymru wasanaeth cynhwysfawr o gasglu deunydd wedi'i ailgylchu. Dylid osgoi casglu gwastraff gweddilliol yn amlach fel nad yw'n tanseilio effeithiolrwydd y gwasanaeth ailgylchu a ddarperir.

Oherwydd y gwahanol ddulliau o leihau capasiti gwastraff gweddilliol, y peth symlaf yw cymharu'r gwahanol wasanaethau a ddarperir drwy ystyried y cyfaint sydd ar gael i breswylwyr i'w ddefnyddio bob wythnos – capasiti wythnosol. Roedd y capasiti wythnosol cyfartalog a ddarparwyd ar gyfer gwastraff gweddilliol yng Nghymru yn 2024 yn amrywio ar draws awdurdodau lleol o 40L yr wythnos i 120L yr wythnos.

Y gwasanaeth gwastraff gweddilliol a argymhellir, ochr yn ochr â gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr a chadarn, yw:

- casglu gwastraff gweddilliol ddim yn amlach nag unwaith bob 3 i 4 wythnos,
- darparu capasiti gwastraff gweddilliol sy'n cyfateb i 60L, neu lai, ar gyfer y gwasanaeth safonol.

Dylid mynd ati i orfodi polisïau gwastraff gweddilliol. Dylid ystyried aelwydydd sydd ag anghenion penodol, fel y trafodir yn Adran 6.

Roedd ymchwil[xvii] a oedd yn edrych ar amlder casglu gwastraff gweddilliol yn argymell y dylid casglu gwastraff bwyd a chynhyrchion hylendid amsugnol (AHPs) ar wahân, ac y dylai cynnwys gwastraff gweddilliol fod mewn cynhwysydd yn hytrach nag yn rhydd pan gaiff ei storio mewn bin.

Dylai awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i annog eu preswylwyr i beidio â rhoi batris neu WEEE bach sy'n cynnwys batris lithiwm-ïon yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol oherwydd y risg sylweddol o danau.

### 3.2.1 Cynhyrchion Hylendid Amsugnol (AHPs)

Gall cynlluniau atal gwastraff fel darparu talebau cewynnau y gellir eu hailddefnyddio, neu gefnogi llyfrgelloedd cewynnau, helpu i leihau nifer y cewynnau untro a gynhyrchir. Mae padiau anymataliaeth y gellir eu hailddefnyddio ar gael hefyd.

Gall casgliadau AHP ar wahân helpu i leddfu pryderon canfyddedig ynghylch newidiadau i amlder casglu gwastraff gweddilliol yn unol â'r ymchwil y cyfeirir ato uchod. Ynghyd â'r casgliad gwastraff bwyd ar wahân, mae nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â'r potensial ar gyfer arogleuon o wastraff sy'n cael ei gasglu'n llai aml, ond mae hefyd yn cynnig cyfle i adennill mwy o ddeunydd o wastraff gweddilliol o bosibl i'w ailgylchu. Mae darparu casgliadau AHP hefyd yn ystyriaeth EDI bwysig i sicrhau cydraddoldeb gwasanaeth ymysg grwpiau â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i famolaeth, oedran ac anabledd.

Cynghorir bod casgliadau'n defnyddio bagiau piws (yn hytrach na streipiau teigr) 60 litr. Gyda bagiau, mae'n hawdd gweld unrhyw halogiad yn y bagiau, a dyna pam nad yw'n syniad da defnyddio cadis yn unig.

## 3.3 Gwastraff gwyrdd

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn cefnogi compostio gwastraff gwyrdd (gardd) yn y cartref gan mai hwn yw'r canlyniad amgylcheddol gorau a gall helpu i leihau faint o wastraff a gyflwynir gan gartrefi i'w gasglu.

Gall casglu gwastraff gwyrdd ar gyfer compostio canolog sy'n cydymffurfio, lle mae'r allbynnau'n bodloni fframwaith diwedd gwastraff perthnasol a safonau ardystiedig priodol, gynhyrchu compost i'w ddefnyddio mewn rhai marchnadoedd a chreu manteision sylweddol o'i gymharu â gwaredu yn y bin gweddilliol. Ni ddylai hyn atal nac anghymell pobl i beidio â chompostio eu hunain ond mae'n cynnig dewis llawer gwell na choelcerthi o wastraff gwyrdd yn yr ardd. O ran effeithiau llygredd cymharol coelcerthi gwastraff gwyrdd neu gasgliadau gwastraff gwyrdd cyn compostio, daeth astudiaeth RPS[xviii] ar gyfer Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod casgliadau'n well yn amgylcheddol.

Dylai'r casgliadau fod yn rheolaidd, ond gall gynnwys lleihau amlder yn y gaeaf lle bo hynny'n briodol. Mater i bob awdurdod lleol yw asesu costau a manteision cyflwyno

codi tâl am gasglu gwastraff gwyrdd. Mae codi tâl o bosibl yn ffordd o leihau faint o ddeunydd sy'n cael ei gasglu ac annog preswylwyr i gompostio gartref. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth o rai ardaloedd fod codi tâl wedi arwain at lai o wastraff gwyrdd yn cael ei gasglu ar gyfer compostio a chynnydd yn faint o wastraff gwyrdd sydd yn y ffrwd gwastraff gweddilliol.

## 3.4 Gwastraff swmpus

Argymhellir bod gwasanaethau casglu gwastraff swmpus yn cael eu rhedeg mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu (mewn trefn blaenoriaeth ddisgynnol), gyda gwaredu yn ddewis olaf. Ni ddylai eitemau a gesglir drwy'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus gael eu danfon yn uniongyrchol i leoliad gwaredu.

Dylid annog preswylwyr i sicrhau bod unrhyw eitemau y gellir eu hailddefnyddio, y bwriadwyd ar gyfer ailddefnyddio, yn cael eu cadw mewn cyflwr ailddefnyddiadwy cyn eu casglu.

Dylai awdurdodau lleol ystyried EDI ac ystyried anghenion preswylwyr ar aelwydydd incwm isel a'r rheini sydd heb fynediad at gerbyd.

Gellir rhedeg gwasanaethau casglu gwastraff swmpus naill ai'n fewnol neu mewn partneriaeth â menter gymdeithasol leol, sefydliad preifat neu drydydd sector.

Dylid ystyried canllawiau diweddaraf y rheoleiddiwr ar drin gwastraff a allai gynnwys llygryddion organig parhaus (POPs)[xix]. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys cadeiriau domestig wedi'u clustogi.

## 3.5 Fflatiau a thai amlfeddiannaeth (HMOs)

Ledled Cymru, roedd 12.5% o aelwydydd yn fflatiau, fflatiau deulawr neu'n rhandai yn 2021[xx]. Mae'r eiddo o'r math hwn yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol ac nid ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled Cymru. Yn 2021, roedd 26.5% o aelwydydd yng Nghaerdydd ac 16.6% o aelwydydd yng Nghasnewydd yn fflatiau, fflatiau deulawr neu'n rhandai, ac yn Sir Gaerfyrddin roedd yr eiddo o'r math hwn ond yn cyfrif am 6.9% o aelwydydd[xxi].

Gall fod heriau o ran darparu gwasanaethau ailgylchu i fflatiau gan fod gwahanol fathau o bensaernïaeth yn gallu bod yn rhwystr i ailgylchu.  Gall blociau o fflatiau hefyd fod yn wahanol o ran demograffeg a rheolaeth, sy'n gofyn am ddulliau gwahanol o ddarparu a chyfathrebu ar gyfer ailgylchu. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar degwch gwasanaeth, a'r cyfle i gyrraedd perfformiad ailgylchu uchel.

Mae fflatiau yn aml yn derbyn gwasanaeth ailgylchu a gwastraff cymunedol, gyda chynwysyddion a rennir yn hytrach na rhai unigol ar gyfer pob cartref. Mae perfformiad ailgylchu o eiddo sy'n derbyn gwasanaeth casglu ar y cyd yn tueddu i fod yn is nag o gartrefi sy'n derbyn gwasanaeth casglu rheolaidd ar garreg y drws[xxii]. Fel arfer, mae

preswylwyr mewn fflatiau yng Nghymru yn gallu ailgylchu'r prif ddeunyddiau (papur, cerdyn, plastig, metel, gwydr, bwyd) drwy eu rhoi mewn biniau a rennir, ond nid oes gan y cerbyd casglu swmp adrannau priodol i gasglu deunyddiau ychwanegol hefyd fel sWEEE, batris, tecstilau ac ati, y gellir eu casglu gyda cherbyd OnePass i aelwydydd gyda gwasanaeth rheolaidd ar garreg y drws. Oherwydd hyn, mae'r rheini sydd â gwasanaeth ailgylchu cymunedol fel arfer yn gallu ailgylchu llai o ddeunyddiau o'u cartrefi o'u cymharu â'r rheini sydd â gwasanaeth rheolaidd ar garreg y drws.

Er mwyn llwyddo i gynyddu ailgylchu mewn fflatiau, argymhellir bod awdurdodau lleol yn defnyddio dull wedi'i deilwra sy'n benodol i'r safle, a fydd fel arfer yn cael ei bennu drwy arolygon safle-benodol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, fel gofalwyr a landlordiaid.

Pan bynnag y bo'n ymarferol, dylai adeiladau sy'n cynnwys fflatiau, a thai sy'n cael eu troi'n fflatiau, dderbyn yr un gwasanaeth casglu ar garreg y drws ag aelwydydd eraill.

Mae llawer o egwyddorion gwasanaeth casglu ar garreg y drws, lle mae gan bob cartref unigol ei set ei hun o gynwysyddion ailgylchu, hefyd yn berthnasol i gasgliadau gwastraff cymunedol:

- ffrydiau ailgylchu sych ar wahân;
- ansawdd uchel;
- gwastraff bwyd ar wahân;
- casgliadau ailgylchu sych a gwastraff bwyd wythnosol.

Mae darparu biniau glân sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac ardaloedd biniau wedi'u lleoli'n gyfleus gyda chapasiti digonol a gwybodaeth sy'n cael ei harddangos yn glir, yn cael ei hargymell ar gyfer fflatiau, ac mae'n gyfrifoldeb i'r landlord. Gyda gwasanaeth ailgylchu llawn, mae angen llai o gapasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol, a gellir ei gyfyngu naill ai yn ôl capasiti neu amlder.

Dylid ystyried cynwysyddion priodol fel bagiau y gellir eu hailddefnyddio neu fagiau cwad, lle mae casgliadau cymunedol ar waith i helpu preswylwyr i gadw deunyddiau ar wahân i'w hailgylchu, ac sydd felly'n cael yr effaith fwyaf ar lefelau ailgylchu.

Mewn datblygiadau newydd, rhaid ystyried ailgylchu a rheoli gwastraff o ddechrau'r broses dylunio adeiladau – fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Adeiladu a Dogfen Gymeradwy H – Draenio a Gwaredu Gwastraff[xxiii]. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod canllawiau cynllunio ar waith sy'n nodi safonau ar gyfer datblygiadau newydd i sicrhau bod gan breswylwyr le priodol i storio cynwysyddion ailgylchu a gwastraff.

### 3.6 Sbwriel a glanhau strydoedd

Mae'n un o egwyddorion craidd Llywodraeth Cymru bod dinasyddion yn gallu ailgylchu'n gyson yn y gwaith, wrth orffwys a chwarae – a dylai hynny gynnwys pan fyddant yn cael gwared ar ddeunydd a ddefnyddir wrth fynd. Er bod heriau halogiad yn

cael eu cydnabod, mae arwyddion da a chynllun biniau sbwriel ailgylchu ar wahân (ar gyfer i) papur/cerdyn, ii) metel, plastig, cartonau a gwydr tebyg, a iii) gwydr) yn gallu ei gwneud yn haws i bobl ailgylchu'n iawn wrth fynd.

Argymhellir felly y dylai awdurdodau lleol:

- Lle bo hynny'n ymarferol, darparu biniau sbwriel ailgylchu ar wahân ar gyfer y deunyddiau allweddol, ochr yn ochr â bin sbwriel cyffredinol.
- Darparu arwyddion da i helpu pobl i ddeall beth ddylid ac na ddylid ei roi ym mhob bin.
- Pan fo'n ymarferol, gwahanu gwastraff y gellir ei ailgylchu oddi wrth lanhau strydoedd i'r ffrydiau deunydd ar wahân.

# 4 Canolfannau Ailddefnyddio ac Ailgylchu (RRCs)

Mae darparu rhwydwaith o gyfleusterau ar gyfer dyddodi nwyddau a deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio, eu hatgyweirio a'u hailgylchu yn ogystal â gwastraff gweddilliol yn rhan hanfodol o'r gwasanaethau ailgylchu a gwastraff a ddarperir gan awdurdodau lleol.

## 4.1 Blaenoriaethu ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu

Yn unol â strategaeth *Mwy nag Ailgylchu* Llywodraeth Cymru a'r Hierarchaeth Gwastraff, dylai RRCs annog a blaenoriaethu ailddefnyddio ac atgyweirio cymaint â phosibl. Gallai hyn gynnwys canolfan ailddefnyddio/atgyweirio neu ardal ddynodedig mewn safleoedd llai ar gyfer gollwng eitemau y gellir eu hailddefnyddio a'u trwsio – i'w trosglwyddo ymlaen i safle sydd â chanolfan ailddefnyddio/atgyweirio. Lle nad yw'n bosibl atgyweirio neu ailddefnyddio, dylid ailgylchu cymaint o'r deunydd a adneuwyd ag sy'n ymarferol.

- Dylid cadw unrhyw eitemau amldro ar wahân i'w hailddefnyddio.
- Dylid dargyfeirio unrhyw eitemau y gellir eu hatgyweirio i gael eu hatgyweirio, ac yna eu hailddefnyddio.
- Dylid ailgylchu unrhyw eitemau na ellir eu hailddefnyddio na'u hatgyweirio.
- Dylid anfon eitemau na ellir eu hailgylchu i'w hadfer.
- Dim ond eitemau na ellir eu hadfer y dylid eu hanfon i'w gwaredu.

Rhestrir rhai ffyrdd o gyflawni hyn isod:

- Siopau ailddefnyddio i roi ail fywyd i eitemau;
- Mannau gollwng ar gyfer ailddefnyddio i gadw eitemau y gellir eu hailddefnyddio ar wahân i'w hailddefnyddio;
- Cefnogaeth gan staff RRC i helpu gydag addasrwydd, ac eiriol dros ailddefnyddio;
- Siopau a chaffis atgyweirio i ymestyn oes yr eitemau;
- Datgymalu eitemau swmpus i'w hailgylchu;

- Polisïau rhag-ddidoli ar gyfer gwastraff sy'n mynd i mewn i safle.

Mae'r eitemau sy'n arbennig o addas i'w hailddefnyddio yn cynnwys dodrefn, tecstilau a dillad, nwyddau cartref, bric-a-brac, eitemau trydanol, beiciau, offer, teganau, llyfrau, CDs a DVDs, pren a phaent.

Mae partneriaethau gyda sefydliadau trydydd sector yn ffordd o sicrhau mwy o ailddefnyddio. Mae gwerth ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector yn deillio o'u gallu i ailddefnyddio mwy o eitemau a adneuwyd mewn RRCs, sydd yn ei dro yn creu manteision cymdeithasol ac economaidd drwy greu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau i wirfoddolwyr. Mae llawer o sefydliadau ailddefnyddio rhagorol yn mynd ag eitemau oddi ar y safle i'w hailwerthu, yn ogystal â siopau ailddefnyddio ar y safle sy'n cael eu rheoli gan elusennau neu sefydliadau ailddefnyddio dodrefn. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cymorth ar y grwpiau hyn i ddarparu'r safon gwasanaeth sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.[xxiv]

## 4.2 Lleoliad

Y dull a argymhellir yw cynnal rhwydwaith o RRCs sy'n darparu mynediad da i drigolion ar draws y sir.

Mae lefel y ddarpariaeth RRC yn dibynnu ar nifer o ffactorau a fydd yn benodol i bob awdurdod lleol.

Mae angen i awdurdodau lleol ystyried pellteroedd teithio ac amseroedd teithio i breswylwyr wrth benderfynu ar ddarpariaeth safle. Ar ben hynny, dylid ystyried hygyrchedd safleoedd RRC ar gyfer aelwydydd heb fynediad at gerbyd, ac a yw cerbydau sy'n cael eu llogi wedi'u hawdurdodi ar y safle. Dylai awdurdodau lleol edrych ar y cyfle i safleoedd canol trefi a all gefnogi gollwng eitemau i'w hailddefnyddio, yn ogystal â manteision ehangach fel nifer yr ymwelwyr i ganol y dref.

Lle bo'n briodol, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i rannu RRCs sydd wedi'u lleoli'n agos at ffin ag awdurdod cyfagos i ddarparu dewis a mynediad i gynifer o ddinasyddion â phosibl.

## 4.3 Deunyddiau a gesglir

Dylid casglu amrywiaeth eang o ddeunyddiau mewn RRCs

Dylai hyn gynnwys papur, cerdyn, gwydr, metelau (fferrus ac anfferrus), deunydd pacio plastig anhyblyg, plastigau anhyblyg nad ydynt yn ddeunydd pecynnu, ffilm blastig hyblyg, gwastraff gwyrdd, tecstilau, cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE, gan gynnwys fêps), rwbel, serameg, gypswm, plastrfwrdd, pren, caniau paent, polystyren, cwpanau/cartonau, batris, olew llysiau, caniau olew, diffoddyddion tân, tiwbiau golau fflworoleuol ac eitemau swmpus fel matresi, carpedi a dodrefn.

Dylai pob awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau ar gyfer casglu a storio gwastraff peryglus o gartrefi (HHW) yn ddiogel, cyn trin neu waredu, gan gynnwys cemegau gardd a chartref peryglus.

Yn unol â'r hierarchaeth gwastraff statudol, dylid blaenoriaethu ailddefnyddio ac atgyweirio ar draul ailgylchu lle bynnag y bo modd, a dim ond deunyddiau na ellir eu hailgylchu y dylid eu hanfon i'w gwaredu fel gwastraff.

### 4.4 Perfformiad a pholisïau

Dylai pob RRC geisio sicrhau o leiaf 85% o ailgylchu cyffredinol a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio a blaenoriaethu casglu a gwerthu deunyddiau glân a gwaredu deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu'n ddiogel.

Mae RRCs eisoes wedi dod yn rhan allweddol o'r rhwydwaith casglu adnoddau, gan ddarparu deunyddiau allweddol yn ôl i'r economi, gyda llai a llai o wastraff nad oes modd ei ailgylchu'n cael ei gasglu.

Dylai awdurdodau lleol fod â pholisïau RRC priodol ar waith i gefnogi nodau economi gylchol ac i sicrhau cymaint o ddargyfeirio â phosibl. Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- Systemau archebu i helpu i reoli llif y traffig sy'n dod i mewn i'r RRCs, gan alluogi staff y safle i ddefnyddio dull 'cwrdd a chyfarch' i helpu preswylwyr i'w defnyddio'n effeithiol, yn ogystal â lleihau ciwiau.

- Didoli ac archwilio gwastraff gweddilliol – polisi o sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu dargyfeirio o wastraff gweddilliol. Gellir gwneud hyn drwy ddarparu ardal benodol lle mae preswylwyr yn gosod eu gwastraff gweddilliol i'w archwilio a'i ddidoli. Dylai'r preswylwyr gael gwybodaeth briodol am unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â gwastraff gweddilliol.

- Mesurau i reoli'r camddefnydd o'r safleoedd hyn ar gyfer gollwng gwastraff nad yw'n wastraff cartref heb godi tâl. Fodd bynnag, dylid ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o fesurau o'r fath, e.e. 'gwaharddiad faniau' sy'n cyfyngu ar hygyrchedd y safleoedd i aelwydydd lle mai fan yw'r unig gerbyd sydd ar gael iddynt.

- Caniatáu i fusnesau bach adneuo eu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân yn y RRCs. Pan fydd gwastraff nad yw'n wastraff cartref yn cael ei gasglu mewn RRCs awdurdodau lleol, dylai adennill costau llawn fod yn berthnasol a dylai busnesau gyflwyno gwastraff wedi'i ddidoli'n wahanol ddeunyddiau yn hytrach na'n gymysg. Nid yw hyn yn disodli dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan y cyfreithiau Ailgylchu yn y Gweithle.

- Codi tâl am wastraff adeiladu a dymchwel o gartrefi. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid codi tâl am fathau penodol o wastraff adeiladu a dymchwel mewn RRCs.

Mae RRC yn safleoedd a ganiateir felly mae'n rhaid gwirio bod amodau trwyddedau'n cael eu dilyn bob amser, yn enwedig wrth ystyried unrhyw newidiadau i arferion rheoli ar y safle

### 4.5 Safleoedd a banciau danfon

Yng Nghymru yn 2022-2023, casglwyd 71% o'r deunyddiau a gasglwyd ar gyfer ailgylchu neu gompostio o gartrefi o ar garreg y drws, casglwyd 28% drwy RRC a chasglwyd llai nag 1% drwy fanciau danfon, yn cynnwys gwydr a thecstilau yn bennaf.[xxv] Felly, dylid adolygu'r ddarpariaeth safleoedd danfon gwastraff yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r trefniadau casglu ar garreg y drws sydd ar waith. Er enghraifft, lle nad yw'r gwasanaeth ar gael ar garreg y drws, gellir defnyddio banciau tecstilau i gasglu tecstilau i'w hailgylchu a'u hailddefnyddio. Mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu banciau casglu ar gyfer tecstilau ac ailgylchu sych yn eu RRCs, yn ogystal ag mewn lleoliadau eraill, sy'n cael eu trafod yn yr adran uchod. Er nad yw eu rôl mor amlwg mwyach, efallai y bydd lleoliad strategol banciau danfon gwastraff hefyd yn dal yn bwysig mewn rhai ardaloedd anghysbell.

## 5 Casgliadau gwastraff annomestig

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gasglu gwastraff masnachol ar gais. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn 2024[xxvi] i wella ansawdd a faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu o weithleoedd. Mae'n rhaid i'r gwaith o gasglu gwastraff ac ailgylchu o safleoedd annomestig gydymffurfio â'r rheoliadau hyn – mae canllawiau ar gael gan Lywodraeth Cymru.[xxvii]

Mae angen cyflwyno'r deunyddiau canlynol ar wahân i'w casglu, a'u casglu ar wahân ac ni ddylid eu cymysgu yn y ffrydiau canlynol o leiaf:

- bwyd (o fangre sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd bob wythnos);
- papur a cherdyn;
- gwydr;
- metel, plastig a chartonau a phethau tebyg;
- tecstilau heb eu gwerthu;
- offer trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu (sWEEE).

Mae gwaharddiad hefyd ar:

- anfon gwastraff bwyd i garthffos (unrhyw swm);
- gwastraff a gesglir ar wahân sy'n mynd i'w losgi a safleoedd tirlenwi;
- yr holl wastraff coed sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Bydd bodloni gofynion y rheoliadau a chefnogi busnesau i ailgylchu'n llawn yn helpu'r awdurdodau lleol i gyrraedd eu targedau ailgylchu statudol.

### 5.1 Gwastraff nad yw'n wastraff cartref mewn RRCs

Dylai awdurdodau lleol ystyried caniatáu i fusnesau bach ddanfon eu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân yn yr RRCs. Pan fydd gwastraff masnachol yn cael ei gasglu mewn RRCs awdurdodau lleol, dylai adennill costau llawn fod yn berthnasol a dylai busnesau gyflwyno gwastraff wedi'i ddidoli'n wahanol ddeunyddiau yn hytrach na'n gymysg.  Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i bwyso a mesur y gwastraff a chynhyrchu dogfennau Dyletswydd Gofal (ac anfonebau ar gyfer adennill costau llawn) ar gyfer y gwastraff masnachol hwn os nad yw'r rhain eisoes ar waith.

Rhaid i'r gwasanaeth hwn fod yn unol â'r ddeddfwriaeth Ailgylchu yn y Gweithle ac nid yw darparu mynediad at RRCs yn disodli'r ddyletswydd i gasglu dan Adran 45(1)(b) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a chasglu ar wahân o dan y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

## 6 Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant (EDI) ac anghydraddoldeb tlodi

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn cynnwys dyletswydd sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried sut mae eu polisïau, eu penderfyniadau a'u gwasanaethau yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Bydd gan bob awdurdod lleol ei ystyriaethau a'i ddemograffeg unigryw ei hun a rhaid iddo gynnal ei ddadansoddiad cydraddoldeb ei hun a monitro ei bolisïau a'i wasanaethau. Bydd gwneud hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol hyn yn gynhwysol, yn deg ac yn hygyrch i bob preswylydd, gan feithrin cymuned decach. Dylid monitro cydraddoldebau a'r gwasanaeth yn barhaus hefyd, e.e. cyfraddau bodlonrwydd a/neu gyfranogiad yn ôl grwpiau nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn nodi gwahaniaethau ac yn sicrhau tegwch o ran y gwasanaeth.

Mae naw nodwedd warchodedig, ac mae'r tabl canlynol yn edrych ar ystyriaethau a chanlyniadau posibl y gwasanaeth ar gyfer pob un.

*Tabl 2: Nodweddion Gwarchodedig, Ystyriaeth a Chanlyniadau Gwasanaeth*

| Nodwedd | Ystyriaethau | Canlyniadau posibl y gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Oed**<br>Mae'n cynnwys pobl o bob oed, gan gwmpasu materion fel gwahaniaethu ar sail oedran ac oedraniaeth. | Babanod a Phlant | • Darpariaeth ysgolion<br>• Cewynnau (gweler beichiogrwydd a mamolaeth)<br>• Cefnogi gofal plant<br>• Hyrwyddo/Cefnogi Cewynnau Go Iawn e.e. talebau |

| Nodwedd | Ystyriaethau | Canlyniadau posibl y gwasanaeth |
|---|---|---|
| | | • AHP<br>• Capasiti Ychwanegol |
| | Pobl Iau | • Fflatiau / HMOs – gwasanaeth teg<br>• Gwasanaethau myfyrwyr |
| | Pobl hŷn | • Gwybodaeth i ofalwyr<br>• Casgliadau â Chymorth (gan gynnwys hyrwyddo'r gwasanaeth)<br>• Capasiti Ychwanegol<br>• AHP<br>• Casgliadau gwastraff swmpus<br>• Mynediad at RRC<br>• Gwastraff clinigol/gofal iechyd<br>• Darpariaethau cartrefi gofal |
| **Anabledd**<br>Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o amhariadau corfforol a meddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd | Hygyrchedd ffisegol | • Casgliadau â Chymorth (gan gynnwys hyrwyddo'r gwasanaeth)<br>• Hygyrchedd a rheolau RRC – cerbydau, cymorth ar y safle ac ati.<br>• Cyfleusterau ailddefnyddio hygyrch<br>• Casgliadau gwastraff swmpus |
| | Hygyrchedd gwybodaeth | • Hawdd ei ddarllen / print bras / iaith bob dydd glir<br>• Braille / digidol / sain / darluniadol? |
| | Triniaeth feddygol | • Capasiti ychwanegol<br>• Casgliadau AHP<br>• Gwastraff clinigol/gofal iechyd<br>• Casglu ac ailddefnyddio offer symudedd |
| **Ailbennu rhywedd**<br>yn berthnasol i unigolion sy'n ymgymryd, wedi ymgymryd, neu'n bwriadu ymgymryd â phroses (neu ran o broses) o ailbennu eu rhyw drwy newid nodweddion ffisiolegol neu nodweddion rhyw eraill. | Triniaeth feddygol | • Gwastraff gofal iechyd<br>• Osgoi negeseuon / delweddau sarhaus |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil**<br>yn cynnwys pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil | Dim ystyriaethau penodol | |

| Nodwedd | Ystyriaethau | Canlyniadau posibl y gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd, yn ogystal ag ar gyfer mamau yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth. | Ystyriaeth feddygol<br><br>Babanod a phlant ifanc | • Capasiti Ychwanegol<br>• Casgliadau AHP<br>• Gwastraff clinigol/gofal iechyd<br><br>• Cewynnau y gellir eu hailddefnyddio<br>• Cefnogi llyfrgelloedd cewynnau<br>• Ailddefnyddio ar gyfer babanod ac eitemau plant |
| **Hil** yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, a tharddiad ethnig neu genedlaethol | Cydnabod y cymunedau aml-ddiwylliannol<br><br>Grwpiau lleiafrifol sy'n fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd â sawl cenhedlaeth | • Negeseuon aml-iaith / darluniadol<br>• Ymgysylltu â chymunedau amrywiol<br>• Capasiti ychwanegol (aelwydydd mawr) |
| **Crefydd** Yn cynnwys unrhyw grefydd (gan gynnwys dim crefydd) ac unrhyw gred grefyddol neu athronyddol (gan gynnwys dim cred) | Cydnabod y cymunedau aml-ddiwylliannol | • Negeseuon aml-iaith / darluniadol<br>• Osgoi tramgwyddo – amseru casglu<br>• Capasiti ychwanegol yn ystod gwyliau<br>• Darparu gwasanaethau ychwanegol – eglwysi, mosgiau ac ati |
| **Rhyw** Mae hyn yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail rhyw unigolyn (dyn neu fenyw) | Menywod | • Cynhyrchion mislif – ailddefnyddio |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadedd heterorywiol, cyfunrywiol a deurywiol | Dim ystyriaethau ar gyfer y glasbrint | • Osgoi negeseuon / delweddau sarhaus |

Fel isafswm, dylai casgliadau â chymorth fod ar gael i'r rheini sydd angen cymorth, fel rhai preswylwyr hŷn neu anabl, a dylid ystyried capasiti ychwanegol ar gyfer aelwydydd mwy neu'r rheini sy'n cynhyrchu mwy o wastraff i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Ar ben hynny, mae nifer o gamau y gall awdurdodau lleol eu cymryd, er nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â nodwedd warchodedig, y gallant helpu i sicrhau tegwch ar draws y gymuned, cefnogi cydlyniant cymdeithasol a helpu'r rheini sy'n profi tlodi:

- Siopau ailddefnyddio;
- Caffis a busnesau atgyweirio;
- Llyfrgell pethau a busnesau gydag eitemau i'w llogi;
- Cyfnewid beiciau / atgyweirio beiciau;
- Prentisiaethau.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd statudol i asesu digonolrwydd gofal plant ac i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion teuluoedd yn eu hardal.

Mae hyn yn bwysicach nawr nag erioed wrth i ni barhau â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu[xxviii] i ***ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith*** ac ***ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol****, i* ***gynnwys pob plentyn dwyflwydd oed.***

Mae gwarchodwyr plant[3] yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o'n helpu i gyflawni'r ymrwymiadau hyn, gan gynnig dewis i rieni tra'n cefnogi ac yn gofalu am blant o eiddo domestig.[4] Fel y nodir yn yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, mae'r gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn debygol o gael effaith sylweddol ar argaeledd a hygyrchedd gofal plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad ac felly mae'n hanfodol bod pob rhan o lywodraeth genedlaethol a lleol yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn unrhyw rwystrau neu bryderon sy'n wynebu gwarchodwyr plant er mwyn i ni allu cynnal a thyfu'r rhan hanfodol hon o'r sector.

I gefnogi'r nod hwn, gofynnwn i bob awdurdod lleol ledled Cymru barhau i fabwysiadu dull pragmatig ac ystyriol, o ran casglu gwastraff gwarchodwyr plant, gan gydnabod bod y rhan fwyaf o warchodwyr plant yn gweithredu o safleoedd sydd yn gartref iddynt yn bannaf oll. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, rydych chi'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau ein bod yn lliniaru unrhyw effaith bosibl ar ddarpariaeth a dewis, cynnydd mewn costau i rieni ac, yn bwysicaf oll, yn cyfrannu at gynaliadwyedd a thwf gwarchodwyr plant ledled Cymru.

## 7 Cyfathrebu

Dylid hyrwyddo'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn briodol i breswylwyr drwy gyfathrebu'n glir ac yn gyson ynghylch pa mor ymarferol yw defnyddio'r gwasanaeth a'r rhesymau dros wneud hynny. Dylid sefydlu adnodd cyfathrebu pwrpasol gyda chyllideb flynyddol. Dylid ymgymryd â chyfleoedd addysg drwy ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Dylid ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfathrebu i'r holl breswylwyr. Lle bo'n briodol, dylid darparu fersiynau hawdd eu darllen, print bras, Braille, sain neu ddigidol. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd angen deunyddiau cyfathrebu mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.

---

[3] Mae person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person yn gofalu am un neu fwy o blant o dan ddeuddeg oed mewn mangre ddomestig am dâl (adran 19(2) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
[4] Mae Adran 19(6) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn diffinio "mangre domestig" fel "unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat".

### 7.1 Cyfleu perfformiad i breswylwyr

Mae traciwr ailgylchu blynyddol WRAP[xxix] yn dangos bod dinasyddion Cymru eisiau adborth ar eu perfformiad a sut mae eu hailgylchu'n cael ei reoli. Mae gwefan *Fy Ailgylchu Cymru*[xxx] yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am faint o ailgylchu y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ei gasglu, a thynged y deunyddiau a gaiff eu hailgylchu. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau tryloywder a gwerthusiad mwy manwl o'r effeithiau amgylcheddol a charbon.

Mae dull didoli ar garreg y drws yn galluogi casglwyr i roi adborth i breswylwyr ynghylch pa eitemau y dylid eu rhoi allan i'w casglu a pha eitemau sy'n halogi, gan annog ailgylchu o ansawdd uchel. Dylai gweithdrefnau halogiad cadarn fod ar waith i sicrhau bod yr egwyddor adborth yn cael ei chadw.

Dylid hefyd cyfathrebu'n ehangach â rhanddeiliaid, er enghraifft i aelodau, staff canolfannau galwadau a gweithlu ehangach awdurdodau lleol. Anogir cyhoeddi newyddion da am berfformiad uwch a chanmol preswylwyr.

## 8 Rheoli Adnoddau ar ôl Casglu

### 8.1 Gwahanu deunyddiau

Dylid rhedeg gwasanaethau casglu gwastraff mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i baratoi ar gyfer ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu (mewn trefn pwysigrwydd blaenoriaeth ddisgynnol). Mae cadw deunyddiau ar wahân yn ystod y broses gasglu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer paratoi i ailddefnyddio ac atgyweirio, ac yn cynyddu maint ac ansawdd yr ailgylchu y gellir ei ddefnyddio gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru yn dilyn hynny. Mae hyn yn lleihau allyriadau carbon ac yn helpu i greu Cymru wyrddach. Mae darparu deunydd o'r ansawdd cywir ac yn y ffordd iawn i'r sector ailbrosesu yn rhan bwysig o drawsnewid i economi gylchol.

Mae'r sector ailbrosesu deunyddiau (gweithgynhyrchwyr sydd naill ai'n cynhyrchu deunyddiau crai eilaidd o ddeunydd eildro neu sy'n cynhyrchu cynnyrch newydd sy'n cynnwys deunydd eildro) yn darparu marchnad twf allweddol ar gyfer deunyddiau a gesglir i'w hailgylchu. Os nad yw deunyddiau'n briodol i ailbroseswyr lleol eu defnyddio, ni fyddant yn cael eu hailgylchu, neu o bosibl yn cael eu hallforio ar gyfer ailgylchu gwerth is mewn mannau eraill. Mae colli'r deunyddiau hyn i'r economi leol yn methu â dal gwerth ariannol ac economaidd llawn y deunyddiau, ac mae'n arwain at golli cyfleoedd i dyfu'r economi werdd, creu swyddi gwyrdd, gwella cadernid cadwyni cyflenwi lleol a sicrhau budd i'r gymuned leol. Gwaherddir allforio deunyddiau o ansawdd isel y gellir eu hailgylchu dramor, a gall arwain at effeithiau niweidiol o ran llygredd amgylcheddol, yn enwedig mewn gwledydd sy'n datblygu gyda rheoliadau amgylcheddol llai caeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddeall anghenion ailbroseswyr a cheisio cysoni gwasanaethau awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu darparu deunyddiau crai o ansawdd uchel i ailbroseswyr lleol yn gyfnewid am incwm da a manteision economi gylchol i'w cymunedau ac i economi ehangach Cymru.

Roedd *Cyfansoddiad Gwastraff Awdurdodau Lleol Cenedlaethol yng Nghymru 2022*[xxxi] yn mesur y gwahaniaeth mewn lefelau halogiad rhwng y tair system casglu ailgylchu fwyaf cyffredin sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru. Canfu'r dadansoddiad mai 6.4% oedd cyfran yr halogiad mewn deunydd a gasglwyd ar wahân, a bod deunydd a gasglwyd drwy wasanaeth dwy ffrwd yn cynnwys 8.2% o halogiad, a bod 20.3% o'r deunydd a gasglwyd drwy wasanaeth cymysg llawn wedi'i halogi.

Ceir hefyd fanteision carbon cyffredinol sylweddol o ganlyniad i gasgliadau didoli ar garreg y drws o'i gymharu â chasgliadau ailgylchu eraill ar garreg y drws[xxxii].

### 8.2 Marchnata deunyddiau

Mae nod Llywodraeth Cymru o gefnogi'r newid i'r economi gylchol nid yn unig yn ymateb i'r gofynion amgylcheddol ond hefyd i gadw deunyddiau yn economi Cymru ac economi ehangach y DU, gan ddal mwy o werth ychwanegol economaidd o'r deunyddiau hyn a chyfradd ailgylchu o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae ailbroseswyr Cymru a'r DU nid yn unig yn gwsmeriaid pwysig i ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a gesglir gan yr awdurdodau lleol, gyda'r incwm o werthu deunyddiau'n helpu i wrthbwyso rhai o gostau darparu gwasanaethau, ond drwy ddarparu deunyddiau, mae'r awdurdodau lleol yn chwarae rôl strategol hanfodol wrth symud at economi gylchol a datgarboneiddio. Yn gyffredinol, po uchaf yw ansawdd y deunydd, yr uchaf yw ei werth ariannol. Felly, anogir awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn casglu ac yn darparu deunyddiau o ansawdd uchel i'r farchnad.

Weithiau gall awdurdodau lleol optimeiddio'r incwm o werthu deunyddiau drwy eu cyflwyno ynghyd â'r rhai o un neu fwy o awdurdodau lleol sy'n bartneriaid. Argymhellir bod awdurdodau lleol yn archwilio potensial trefniadau gwahanol i wneud y gorau o fanteision deunyddiau marchnata.

### 8.3 Cyrchfannau terfynol a gwybodaeth am berfformiad

Mae cyrchfannau terfynol deunyddiau eildro sy'n cael eu casglu yng Nghymru yn cael eu cofnodi a'u hadrodd gan awdurdodau lleol i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy *WasteDataFlow*. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi cymaint o wybodaeth ag y gallant yn rhesymol am ble mae deunyddiau'n cael eu hanfon i'w hailgylchu. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau tryloywder a gwerthusiad mwy manwl o'r effeithiau amgylcheddol a charbon.

Dylai awdurdodau lleol gasglu a marchnata deunyddiau mewn ffyrdd sy'n galluogi'r buddion sy'n deillio o'r economi gylchol ar lefel leol a chenedlaethol, gan flaenoriaethu cyrchfannau terfynol deunyddiau lleol lle bo hynny'n bosibl.

# 9 Cynnal Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff

Mae gwasanaeth effeithiol ac effeithlon yn gofyn am fonitro, cynnal a chadw parhaus a rheolaeth weithredol. Mae hyn yn golygu cael y canlynol yn eu lle:

- polisïau a phrosesau gweithredol gan gynnwys gorfodaeth addas;
- hyfforddi criwiau ac ymgysylltu;
- adnoddau staff;
- systemau / rheolaeth iechyd a diogelwch;
- depos a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff;
- monitro'r gwasanaeth yn barhaus;
- cyfathrebu'n glir â phreswylwyr a staff (fel sy'n cael ei drafod yn adran 7).

## 9.1 Polisïau a phrosesau gweithredol

Dylai gwasanaeth gael ei gefnogi gan bolisïau priodol i ailgylchu ac ailddefnyddio cymaint â phosibl, gan leihau gwastraff gweddilliol ar yr un pryd.  Gallai'r rhain gynnwys polisïau ar baratoi ar gyfer ailddefnyddio ar gyfer gwastraff sy'n cael ei gludo i'r RRCs a'i gasglu ar garreg y drws (yn enwedig casgliadau gwastraff swmpus, ond sydd hefyd yn cynnwys unrhyw gasgliadau tecstilau a sWEEE ar garreg y drws), gwastraff gweddilliol, ailgylchu gorfodol, halogi, ac addysg a gorfodaeth.

Dylai prosesau a gweithdrefnau gweithredol cadarn fod ar waith a dylai staff a gweithwyr perthnasol eu deall. Mae'r prosesau hyn yn debygol o gynnwys prosesau casglu fel casgliadau â chymorth, gweithdrefn colli casgliadau, cyflwyno cynwysyddion, 'cloi allan' ar gyfer halogi deunyddiau ailgylchu a gweithdrefnau safleoedd fel rheoli traffig.

Dylid cefnogi polisïau, prosesau a gweithdrefnau drwy sefydlu strwythur clir a diwylliant o gyfathrebu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

Dylai strwythur clir gynnwys goruchwyliaeth briodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Mae'r ffyrdd y gellir cyflawni hyn yn cynnwys cyfarfodydd gweithredol strwythuredig, ôl-drafodaethau gyda chriwiau ar ddiwedd y shifft, gwiriadau criw rheolaidd gan fonitro iechyd a diogelwch, cydymffurfiaeth a glanweithdra a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gan y criw.

## 9.2 Hyfforddi criwiau ac ymgysylltu

Dylai staff casglu gael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol a bod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal. Mae criwiau casglu yn chwarae rhan allweddol ac mae hyn yn cynnwys lleihau'r

halogiad a gesglir ar garreg y drws. Mae sicrhau bod gweithwyr yn gwrthod deunydd na thargedir yn sicrhau bod preswylwyr yn cael adborth fel rhan o'r broses addysg, sy'n hanfodol. Yn ogystal â'r hyfforddiant cychwynnol, dylai rhaglen o ddiweddariadau gweithredol a hyfforddiant rheolaidd fod ar waith, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i'r criw roi adborth ar faterion neu bryderon. Mae pynciau hyfforddi yn debygol o gynnwys:

- iechyd a diogelwch – yn ymwneud â digwyddiadau penodol a diweddariadau i systemau gwaith diogel, asesiadau risg a/neu asesiadau risg llwybrau;
- amserlen o gyflwyniadau diogelwch rheolaidd sy'n cwmpasu canllawiau a diweddariadau'r diwydiant;
- diweddariadau i brosesau a pholisïau;
- hyfforddiant gloywi ar offer a pheiriannau;
- oriau gwaith a disgwyliadau;
- diweddariadau cyffredinol ar y gwasanaeth a'r prosiectau;
- hyfforddiant ar ddelio â sgyrsiau anodd a lleihau gwrthdaro.

## 9.3 Adnoddau

Mae gan wasanaeth effeithlon sy'n cael ei reoli'n dda adnoddau digonol ac mae'n gydnerth. Mae'r ystyriaethau o ran adnoddau yn cynnwys:

- cytundebau asiantaeth i sicrhau y gellir darparu adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth pan fo angen;
- rheoli unrhyw absenoldebau salwch;
- cynllunio ar gyfer Gwyliau Banc;
- iechyd a diogelwch – dylid ymchwilio i bob damwain a digwyddiad er mwyn sicrhau bod modd cofnodi'r gwersi a ddysgwyd a, lle bo'n briodol, gwneud newidiadau;
- bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei ddarparu i griwiau gyda phroses reolaidd ar gyfer adnewyddu ac amnewid cyfarpar diogelu personol;
- dylid rhoi ffôn/dyfais yn y cerbyd i gerbyd/criw er mwyn cadw mewn cysylltiad drwy gydol y dydd;
- cynllunio rowndiau i fod yn gyraeddadwy ac yn effeithlon;
- dylai cerbydau a chyfarpar fod yn addas i'r diben a chael eu harchwilio, eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n rheolaidd;
- hyfforddi gyrwyr a gweithwyr i ddefnyddio cerbydau a chyfarpar;
- cynllunio ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd (er enghraifft, effaith tymereddau uwch, cynnydd yn lefelau'r môr a sefyllfaoedd tywydd eithafol).

## 9.4 Iechyd a diogelwch

Y diwydiant gwastraff sydd â'r gyfradd uchaf ond un o anafiadau angheuol ac anafiadau nad ydynt yn angheuol sy'n gysylltiedig â gwaith ar ôl amaethyddiaeth a ffermio.[xxxiii] Mae amgylchedd gweithio diogel yn hanfodol er mwyn rhedeg gwasanaeth ailddefnyddio, ailgylchu a gwastraff effeithiol. Gellir cyflawni hyn drwy ddatblygu

arferion a gweithdrefnau priodol y dylid eu cofnodi mewn cyfres o ddogfennau. Dylid adolygu'r dogfennau hyn yn rheolaidd yn unol â chanllawiau'r diwydiant. Dylai adrannau iechyd a diogelwch corfforaethol chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi gwasanaethau ailgylchu a gwastraff i ddatblygu a goruchwylio'r prosesau a'r dogfennau hyn, a sicrhau bod pawb yn eu deall ac yn eu dilyn. Mae'r dogfennau hyn yn debygol o gynnwys:

- systemau gwaith diogel;
- asesiadau risg llwybrau;
- asesiadau risg ar gyfer casgliadau a Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff (WTS);
- cyfleusterau lles digonol;
- asesiadau sŵn ac Iechyd Galwedigaethol;
- codi a chario;
- gweithdrefn bacio;
- delio â sefyllfaoedd o wrthdaro a'u tawelu.

## 9.5 Depos a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff

Ar ôl eu casglu, mae angen danfon deunyddiau i'w hailgylchu i gyfleusterau sydd wedi'u dylunio ac yn cael eu gweithredu'n briodol i wneud unrhyw waith didoli a chrynhoi angenrheidiol cyn eu gwerthu a'u cludo ymlaen i ailbroseswyr.

Rhaid i bob safle gael trwyddedau gwastraff priodol ar gyfer y gweithrediadau a wneir ar y safle, gan gynnwys Cynllun Atal a Lliniaru Tân (FPMP) sy'n bodloni canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)[xxxiv]. Rhaid i'r safleoedd gael eu rhedeg gan staff sydd â'r cymwysterau priodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded gwastraff ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio perthnasol, er enghraifft, gofynion adrodd a samplu gwastraff[xxxv].

Rhaid i orsafoedd trosglwyddo deunyddiau fod â threfniadau glanhau ar waith i fodloni Iechyd a Diogelwch ac i ymestyn oes offer drud. Rhaid i systemau gweithio diogel fod ar waith a chael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cael eu dilyn gan staff.

Dylid dylunio adeiladau newydd i fodloni gofynion sero net (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy ac ystyried allyriadau sydd wedi'u hymgorffori), a dylai adeiladau presennol gael eu haddasu yn unol â'r targedau sero net ar gyfer 2030 a osodwyd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Lle bo'n briodol, dylai adeiladau ddarparu pwyntiau gwefru ar gyfer fflydoedd ULEV. Dylai adeiladau ac ardaloedd cysylltiedig gefnogi bioamrywiaeth yn unol â'r ddyletswydd o dan Adran 6 Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[xxxvi], sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae ystyried bioamrywiaeth hefyd yn cynnwys y nwyddau a'r deunyddiau sy'n cael eu caffael, o ystyried mai echdynnu adnoddau naturiol yn fyd-eang yw prif achos sylfaenol yr argyfwng bioamrywiaeth byd-eang. Mae'r symudiad at

economi fwy cylchol yr un mor hanfodol i weithredu ar fioamrywiaeth ag ydyw i ddatgarboneiddio.

### 9.6 Monitro’r gwasanaeth

Dylid monitro’r gwasanaeth yn barhaus i sicrhau ei fod yn perfformio yn ôl y disgwyl a bod unrhyw broblemau’n cael eu nodi a’u datrys cyn gynted â phosibl.

Mae amrywiaeth o ffynonellau data ar gael, er enghraifft:

- gall tunelli crwn nodi ardaloedd sy’n cynhyrchu mwy o wastraff gweddilliol;
- gall technoleg yn y cerbyd fonitro cyfranogiad a chael ei defnyddio i gofnodi lle nad yw deunyddiau’n cael eu casglu oherwydd halogiad;
- meddalwedd llwybro i optimeiddio llwybrau/cylchoedd casglu er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon a lleihau’r defnydd o danwydd ac allyriadau CO2 cerbydau;
- gellir defnyddio pwyso ar y cerbyd i wneud y gorau o’r gwasanaeth a nodi cynhyrchwyr gwastraff gweddilliol uwch;
- gall monitro ansawdd deunyddiau yn y lleoliad crynhoi ganfod rowndiau gyda chyfrannau uwch o halogiad;
- monitro perfformiad y criw ac ymddygiad preswylwyr.

## Atodiad 1 – Geirfa

**Cynnyrch hylendid amsugnol? (AHP)** – Deunyddiau gwastraff anghlinigol/meddygol fel cewynnau plant ac oedolion, cynhyrchion gwastraff anymataliaeth fel bagiau leinio a phadiau amsugnol ar gyfer gwelyau a chadeiriau.

**Treulio anaerobig (AD)** – Proses o ddadelfennu deunyddiau bioddiraddadwy dan amodau a reolir lle mae ocsigen rhydd yn absennol, ar dymheredd sy'n addas ar gyfer anerob mesoffilig neu thermoffilig sy'n digwydd yn naturiol a rhywogaethau bacteria anerob anghyfyngedig, sy'n trosi'r mewnbynnau i wneud bio-nwy sy'n gyforiog o fethan a gweddillion treuliad anaerobig. Gall gweddillion treuliad anaerobig greu manteision i briddoedd y mae'n cael ei ddefnyddio arnynt a'r planhigion y mae'r priddoedd hyn yn eu cynnal.

**Mwy nag Ailgylchu** – Cynllun Llywodraeth Cymru i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti lle rydym yn defnyddio adnoddau ac yn osgoi gwastraff. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

**Cartonau** – Deunydd pacio cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr. Deunydd pacio sydd wedi'i wneud o ffibrau papur neu bapurfwrdd, wedi'i lamineiddio â pholyethylen dwysedd isel neu blastig polypropylen, ac a allai hefyd fod â haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw, a ddefnyddir fel deunydd pacio ar gyfer cynhyrchion bwyd fel llaeth, dewisiadau llaeth amgen, sudd ffrwythau, cawl, tomatos wedi'u torri a chodlysiau.

**Ailgylchu dolen gaeedig** – Proses lle mae deunydd gwastraff: (a) yn cael ei ailgylchu i fod yn gynnyrch newydd sydd â swyddogaeth debyg; (b) yn disodli defnydd gwreiddiol un deunydd mewn cynnyrch newydd gwahanol; neu (c) yn cymryd lle deunydd crai carbon corfforedig uwch, a lle gellir defnyddio'r cynnyrch newydd ei hun, ei waredu neu ei ddal, i'w ailgylchu eto, gan ailgylchu'r adnodd deunydd yn barhaus drwy'r gadwyn gyflenwi.

Mae enghreifftiau o ailgylchu dolen gaeedig o ansawdd uchel yn cynnwys:

(a) y defnydd o ysgyrion gwydr wedi'i ailgylchu mewn cymwysiadau ail-doddi i greu cynhyrchion gwydr newydd yn hytrach na'i ddefnyddio fel agregau mewn adeiladu;

(b) defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i gynhyrchu cynwysyddion bwyd a diod newydd, yn hytrach na chynhyrchu cynhyrchion adeiladu polymer plastig cymysg na ellir eu hailgylchu'n ymarferol ar ddiwedd oes;

(c) defnyddio papur wedi'i ailgylchu i gynhyrchu cynhyrchion papur newydd, yn hytrach na defnyddiau eraill fel deunydd gwely anifeiliaid.

**Cynhwysydd** – Mae'n dal neu'n storio gwastraff mewn rhwystr ffisegol sy'n ei atal rhag gollwng neu ddianc. Fel arfer, mae cynwysyddion gwastraff yn cael eu gwneud o blastig neu fetel. Mae cynwysyddion yn cynnwys, er enghraifft, bocsys (gyda chaead neu heb gaead), biniau olwynion, basgedi neu gewyll, bagiau plastig a sgipiau

**Cymysg** – Deunydd eildro sy'n cynnwys gwahanol fathau o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu cymysgu gyda'i gilydd neu heb eu didoli, fel papur, metel, plastig a gwydr.

**Compostio** – Proses aerobig, fiolegol lle mae gwastraff organig, fel gwastraff gardd a chegin, yn cael ei droi'n ddeunydd gronynnog sefydlog y gellir ei ddefnyddio ar dir i wella strwythur pridd a chynyddu faint o faeth sydd yn y pridd.

**Ailgylchu sych** – Ailgylchu deunyddiau sych, fel papur, cerdyn, caniau, poteli plastig, plastig cymysg a gwydr.

**Offer trydanol ac electronig (EEE)** – Offer sy'n dibynnu ar gerrynt trydanol neu feysydd electromagnetig er mwyn gweithio'n iawn ac offer ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur ceryntau a meysydd o'r fath ac wedi'u dylunio i'w defnyddio gyda chyfradd foltedd heb fod yn fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt uniongyrchol. Pan ddaw EEE yn wastraff, cyfeirir ato fel 'WEEE', gwastraff bach EEE yw 'sWEEE'.

**Troi Gwastraff yn Ynni (EfW)** – Proses adfer ynni sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffurf trydan, gwres neu danwyddau trafnidiaeth drwy losgi gwastraff gweddilliol dan reolaeth.

**Ailgylchu o ansawdd uchel** – Mae'n ofynnol bod nodweddion penodol y deunydd (er enghraifft y polymer, neu'r gwydr, neu'r ffibr papur neu'r metel) yn cael eu cadw neu eu hadfer drwy gydol y gadwyn casglu a'r broses ailgylchu er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial i gael eu hailddefnyddio yn yr economi gylchol mewn ffordd sydd hefyd yn gwneud y gorau o arbedion allyriadau carbon.

**Tai amlfeddiannaeth (HMO)** – Yn y rhan fwyaf o achosion, mae HMO yn dŷ neu fflat lle mae dau neu fwy o aelwydydd yn byw fel eu prif breswylfa neu eu hunig breswylfa a lle mae rhai o'r aelwydydd hyn yn rhannu cyfleusterau sylfaenol, megis cegin, toiled neu ystafell ymolchi. Mae mathau eraill o HMO yn cynnwys adeiladau wedi'u haddasu sy'n cynnwys fflatiau hunangynhaliol; adeiladau sy'n cynnwys fflatiau hunangynhaliol ac sy'n bodloni profion penodol; ac adeiladau eraill lle mae cyfleusterau sylfaenol ddim yn bodoli.

**Gwastraff o gartrefi (HHW)** – Deunyddiau sy'n cael eu casglu'n uniongyrchol o gartrefi (casgliadau o garreg y drws), sy'n cael eu cludo i safleoedd danfon gwastraff (gan gynnwys safleoedd amwynder dinesig) neu sy'n cael eu casglu gan sefydliadau preifat a gwirfoddol nad ydynt wedi'u cynnwys mewn mannau eraill.

**Lludw gwaelod llosgydd (IBA)** – Y lludw sydd dros ben ar waelod llosgydd ar ôl i wastraff gael ei losgi.

**Safleoedd tirlenwi** – Mae unrhyw ardaloedd o dir lle mae gwastraff yn cael ei waredu yn cael eu galw'n safleoedd tirlenwi. Maent yn aml wedi'u lleoli mewn hen chwareli neu gloddfeydd brig. Mewn ardaloedd lle mae'r rhain yn brin neu lle nad oes gwagleoedd parod yn bodoli, mae'r arfer o godi tir weithiau'n cael ei gyflawni; mae gwastraff yn cael ei adael uwchben y ddaear ac mae'r dirwedd yn cael ei gyfuchlino.

**Gwastraff solet trefol awdurdod lleol (MSW)** – Gwastraff cartrefi a gwastraff nad yw o gartrefi sy'n cael ei gasglu a'i waredu gan awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys casgliadau rheolaidd o gartrefi, casgliadau ailgylchu penodol, casgliadau arbennig o eitemau swmpus, gwastraff a geir mewn safleoedd amwynder dinesig a gwastraff a gesglir o ffynonellau nad ydynt yn gartrefi (e.e. rwbel, gweddillion llosgyddion, plastrfwrdd, a deunydd o lanhau traethau). Nid yw gwastraff trefol awdurdod lleol yn cynnwys cerbydau sydd wedi'u dympio.

**Gwastraff annomestig** – Gweler Adran 75 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac is-ddeddfwriaeth berthnasol, er enghraifft Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

**Gwastraff trefol annomestig** – Yr holl wastraff a gesglir gan awdurdod lleol neu ei gontractwyr, ac eithrio gwastraff o fewn Atodlen 1 a 2 i Reoliadau Gwastraff a Reolir 1992. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wastraff arall a gesglir gan awdurdod, fel gwastraff parciau a gerddi trefol, gwastraff diwydiannol neu fasnachol a gwastraff sy'n deillio o glirio deunyddiau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon.

**Ailgylchu dolen agored** – Pan fydd deunydd gwastraff naill ai (a) yn disodli defnydd gwreiddiol deunydd gwahanol mewn cynnyrch newydd gwahanol neu (b) yn disodli'r defnydd o ddeunydd carbon corfforedig is a/neu pan na ellir ailgylchu'r cynnyrch newydd ei hun ar ôl ei ddefnyddio, gan golli'r deunydd o'r gadwyn gyflenwi. Mae ailgylchu dolen agored yn aml yn gysylltiedig â dirywiad yn y deunydd sy'n cael ei ailgylchu. Cyfeirir at ailgylchu dolen agored hefyd fel isgylchu.

**Gwastraff Organig** – Mae gwastraff organig yn cynnwys bwyd, gwastraff gwyrdd (gardd) a gwastraff arall y gellir ei gompostio.

**Llygryddion Organig Parhaus (POPs)** – Cemegau sydd â phriodweddau gwenwynig sy'n aros yn yr amgylchedd am amser hir iawn, mewn cadwyni bwyd, ac sy'n gallu achosi niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd. Os cânt eu rhyddhau, gall y llygryddion hyn symud ar draws ffiniau ymhell o'u ffynhonnell drwy aer, dŵr a rhywogaethau mudol – ac maent hyd yn oed yn cronni mewn mannau lle nad ydynt erioed wedi cael eu defnyddio na'u cynhyrchu. Mae rhai yn cael eu galw'n "gemegau am byth". Gydag eithriadau cyfyngedig, yn gyffredinol, nid yw POPs yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchion newydd mwyach, ond mae modd dod o hyd iddynt o hyd mewn gwastraff. Os bydd gwastraff o'r fath (fel WEEE neu tecstilau) yn cael ei ailgylchu, gall POPs fynd yn ôl i mewn i'r economi pan fydd y deunyddiau sy'n deillio o hynny'n cael eu defnyddio mewn cynnyrch newydd.

**Paratoi i ailddefnyddio** – Mae gwastraff trefol awdurdod lleol yn cael ei baratoi i'w ailddefnyddio at ddibenion y targedau pan fo:

(a) cynnyrch gwastraff neu elfen o gynnyrch gwastraff wedi bod yn destun gweithgaredd gwirio, glanhau neu atgyweirio; a

(b) gellir ailddefnyddio cynnyrch gwastraff neu elfen o gynnyrch gwastraff at ei ddiben gwreiddiol.

**Ailgylchu** – Unrhyw weithred adfer lle mae deunyddiau gwastraff yn cael eu hailbrosesu yn gynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau, boed hynny at y dibenion gwreiddiol neu at ddibenion eraill. Nid yw'n cynnwys adfer ynni a'r ailbrosesu'n ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio fel tanwydd neu mewn gweithrediadau ôl-lenwi.

**Cerbyd Casglu Sbwriel (RCV)** – Mae cerbydau casglu sbwriel wedi'u dylunio i gasglu gwastraff a'i gludo i gyfleuster addas. Mae'r biniau'n cael eu codi i'w gwagio ac yna mae'r deunydd yn cael ei gywasgu.

**Ailbrosesydd** – Mae'n cyflawni'r gweithgaredd ailgylchu, sy'n troi gwastraff yn gynnyrch, deunydd neu sylwedd nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff mwyach.

**Gwastraff gweddilliol** – Gwastraff nad yw'n cael ei baratoi i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio.

**Cerbyd Adnoddau ac Adfer (RRV)** – Cerbydau arbenigol yw RRVs a ddefnyddir i gasglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n hwyluso dulliau effeithlon o ddidoli ar garreg y drws. Mae ganddyn nhw nifer o adrannau er mwyn gallu casglu gwastraff bwyd ac ailgylchu sych mewn un casgliad a'u cadw ar wahân. Maent yn gymharol ysgafn ac yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac mae ganddynt allyriadau CO2 is na RCVs.

**Ailddefnyddio** – Mae ailddefnyddio yn fath o atal gwastraff lle mae sylwedd, cynnyrch neu ddeunydd yn cael ei ddefnyddio eto cyn iddo ddod yn wastraff. Gweler hefyd y diffiniad ar gyfer 'Paratoi i ailddefnyddio' uchod ar gyfer ailddefnyddio deunydd ar ôl iddo ddod yn wastraff.

**Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu (RRC)** – Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd ar gyfer gollwng gwastraff gan ddeiliaid tai, fel y sefydlwyd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd, a.51 (1) b. Mae RRCs yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl i reoli'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu mewn ffordd gyfleus a chynaliadwy. Mae'r safleoedd hyn hefyd yn cael eu galw'n Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi (HWRC), Canolfannau Ailgylchu Gwastraff (WRC), Canolfannau Ailgylchu Cymunedol (CRC), Canolfannau Ailgylchu i Gartrefi (HRC) neu safleoedd Amwynder Dinesig (CA). Cyfeirir atynt yn aml fel 'y domen' gan y cyhoedd.

**Cyfradd ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (diffiniad targed statudol)** – Canran y gwastraff trefol awdurdod lleol sy'n cael ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio neu ei gompostio, wedi'i gyfrifo adeg ei ddosbarthu i gontractwyr gwaredu neu ailgylchu/compostio. Mae hyn, felly, yn seiliedig ar faint o wastraff sy'n cael ei anfon i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, yn hytrach na'i gasglu at y diben o gael ei baratoi i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio.

**Tuag at Ddyfodol Diwastraff** – Dogfen strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y llwyddiannau a gafwyd drwy Yn Gall gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru (2002). Mae'n nodi fframwaith tymor hir ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff rhwng nawr a 2050.

**Triniaeth** – Prosesau ffisegol, thermol, cemegol neu fiolegol, gan gynnwys didoli, sy'n newid nodweddion y gwastraff er mwyn lleihau ei gyfaint neu ei natur beryglus, hwyluso ei drin neu wella ei adferiad.

**Gwastraff** – Unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r deiliad yn ei waredu neu'n bwriadu ei waredu neu y mae'n ofynnol iddo ei waredu.

**Deunydd gwastraff** – Diffinnir hyn yn fras gan y math o ddeunydd sy'n gynwysedig ynddo, er enghraifft, gwydr, metel, plastig, papur a gwastraff bwyd. Mewn rhai achosion gall deunydd gwastraff fod yn fath o gynnyrch – offer trydanol neu electronig (EEE) neu decstilau. Mae gan bob un o'r deunyddiau hyn is-ffracsiynau.

**Ffrwd wastraff** – Categori, neu gategorïau, o ddeunyddiau gwastraff yr ystyrir eu bod yn addas i'w casglu mewn un cynhwysydd.

**Is-ffracsiwn Gwastraff** – Mae'n cyfeirio at y gwahanol fathau o eitemau gwastraff sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff unigol. Er enghraifft, mae plastig yn cynnwys is-ffracsiynau y gellir eu hailgylchu fel poteli, potiau, tybiau a hambyrddau sy'n cynnwys PET, HDPE neu PP (gweler "Codau Adnabod Resin") ac is-ffracsiynau nad oes modd eu hailgylchu fel eitemau sy'n cynnwys PVC neu PS.

**WasteDataFlow (WDF)** – WasteDataFlow yw'r system ar y we ar gyfer adrodd ar ddata gwastraff trefol gan awdurdodau lleol y DU i'r llywodraeth. Yng Nghymru, mae tunelli a chyrchfannau gwastraff solet trefol yn cael eu cofnodi a'u hadrodd gan awdurdodau lleol i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy WasteDataFlow.

## Atodiad 2 – Is-ffracsiynau sy’n ffurfio pob ffrwd wastraff

Mae’r is-ffracsiynau y gellir eu cynnwys ym mhob ffrwd wastraff wedi’u rhestru yn y tabl isod.

| Papur a Chardfwrdd | |
|---|---|
| **Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd** | **Beth NA ddylid ei roi yn y cynhwysydd (oni bai fod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)** |
| • Papur (glân wedi’i argraffu/heb ei argraffu)<br>• Llyfrau clawr papur<br>• Papurau newydd<br>• Cylchgronau<br>• Catalogau<br>• Amlenni<br>• Cyfeiriaduron ffôn<br>• Deunydd pecynnu cardfwrdd<br>• Blychau wyau | • Papur wedi’i rwygo (gellir ailgylchu hwn ar wahân)<br>• Bwyd/olew/saim/peint neu bapur neu gardfwrdd sydd wedi’i halogi fel arall<br>• Llyfrau clawr caled (eu rhoi i’w hailddefnyddio os yn addas)<br>• Papur wal<br>• Papur lapio anrhegion<br>• Papur sidan<br>• Tyweli papur<br>• Rholyn cegin<br>• Cardiau crafu<br>• Derbyniadau’r tiliau<br><br>Cartonau a phethau tebyg (Dylid rhoi’r canlynol i gyd yn y cynhwysydd plastigau, metelau a chartonau)<br>• Cartonau bwyd a diod plastig neu fetel wedi’u lamineiddio<br>• Cynwysyddion papur anhyblyg (e.e. tiwbiau creision)<br>• Cwpanau papur wedi’u lamineiddio |

| **Plastig, Metel a Chartonau** | |
|---|---|
| **Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd** | **Beth NA ddylid ei roi yn y cynhwysydd (oni bai fod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)** |
| <u>Deunydd pacio plastig anhyblyg – dim ond y ffracsiynau a restrir isod</u><br>• Poteli a chaeadau plastig glân (e.e. llaeth, diod, saws, glanedydd, siampŵ, cemegau, olewau ac ati)<br>• Cynwysyddion bwyd plastig anhyblyg glân (e.e. tybiau menyn/margarîn, potiau iogwrt, hambyrddau ffrwythau a blychau bwyd a chig nad ydynt yn ddu)<br>• Cwpanau plastig tafladwy (wedi'u gwneud o blastig yn unig)<br>• Caeadau plastig o gwpanau diod<br><u>Deunydd pacio metel – dim ond y ffracsiynau a restrir isod</u><br>• Caniau bwyd a diod glân (dur ac alwminiwm)<br>• Caniau erosol metel (dur ac alwminiwm, gwag, dim paent neu gemegion niweidiol)<br>• Tuniau siocled a bisgedi metel<br>• Ffoil alwminiwm glân (dim bwyd na halogiad cemegol)<br>• Hambyrddau bwyd alwminiwm glân<br>• Caeadau jar metel<br>• Topiau poteli metel<br>• Tiwbiau alwminiwm gwag (e.e. tiwbiau piwrî tomato)<br><u>Cartonau a deunydd pecynnu cyfansawdd ffibr-blastig arall o gyfansoddiad tebyg</u><br>• Mae cartonau wedi'u gwneud o ffibr yn bennaf ond yn cynnwys haen fetel (sy'n cael ei defnyddio'n gyffredin ar gyfer diodydd meddal a llaeth) a gwddf plastig a chap.<br>• Cynwysyddion papur anhyblyg (e.e. tiwbiau creision)<br>• Cwpanau papur gyda bagiau leinio mewnol plastig (heb eu gwneud o blastig bioddiraddadwy neu blastig y gellir ei gompostio) | <u>Plastig (gellir ailgylchu nifer o'r eitemau hyn ar wahân)</u><br>• Hambyrddau bwyd a chig plastig du<br>• Bagiau plastig (gan gynnwys bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwyd wedi'i rewi, bagiau compost, bagiau gwrteithio, bagiau bwydo)<br>• Bagiau swmp ar gyfer danfon tywod, graean, hadau, bwyd anifeiliaid ac ati.<br>• Ffilm blastig (gan gynnwys haenen lynu, ffilm oddi ar dybiau bwyd a deunydd amlapio paledi, papur lapio, deunydd amlapio silwair, gorchudd cnydau)<br>• Deunydd amlapio melysion a bisgedi<br>• Pacedi creision / ffoil â chefn papur<br>• Codenni<br>• Sachets<br>• Swigod lapio<br>• Polystyren<br>• Plastigau caled anhyblyg nad ydynt yn becynnau (gan gynnwys teganau, hongwyr cotiau, potiau planhigion)<br>• Deunydd pacio plastig y gellir ei gompostio, bioddiraddadwy neu ocsi-ddiraddadwy<br>• Podiau coffi plastig<br><u>Metel (gellir ailgylchu nifer o'r eitemau hyn ar wahân)</u><br>• Caniau paent (plastig neu fetel gan gynnwys caniau paent chwistrellu erosol)<br>• Cistiau nwy (ni ddylid rhoi'r rhain yn y gwastraff cyffredinol chwaith gan y byddant yn achosi risg o ffrwydrad. Rhaid iddynt gael eu rheoli gan gontractwr sydd wedi'i awdurdodi'n briodol).<br>• Sgrap metel o unrhyw fath<br>• Podiau coffi metel<br><u>Deunydd pecynnu cyfansawdd ffibr-blastig arall o gyfansoddiad tebyg i gartonau</u><br>• Cwpanau papur gyda haen gwrth-ddŵr mewnol bioddiraddadwy y gellir ei gompostio |

| Gwydr | |
|---|---|
| **Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd** | **Beth NA ddylid ei roi yn y cynhwysydd (oni bai fod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)** |
| • Jariau gwydr glân (pob lliw)<br>• Poteli gwydr glân (pob lliw) | • Caeadau jar metel (eu rhoi yn y cynhwysydd metel/plastig/carton)<br>• Topiau poteli metel (eu rhoi yn y cynhwysydd metel/plastig/carton)<br>• Gwydr dalen (fel cwarel ffenestr, gwydr ffrâm llun, gwydr ffenestr flaen car)<br>• Drychau<br>• Bylbiau golau<br>• Llestri (gan gynnwys cerameg a tsieina)<br>• Gwydrau yfed<br>• Offer coginio gwydr a serameg |

| Bwyd | |
|---|---|
| **Beth ddylid ei roi yn y cynhwysydd** | **Beth NA ddylid ei roi yn y cynhwysydd (oni bai fod y casglwr gwastraff yn caniatáu iddo gael ei gynnwys yn benodol)** |
| • Pob eitem gwastraff sydd ar unrhyw adeg wedi bod yn fwyd (nad yw'n cynnwys diod at y diben hwn) a fwriedir i'w bwyta gan bobl neu anifeiliaid<br>• Gwastraff bioddiraddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod | • Unrhyw ddeunydd pacio (os gellir ei ailgylchu, ei roi mewn cynhwysydd penodol ar wahân)<br>• Eitemau (gan gynnwys deunydd pacio) sy'n fioddiraddadwy, yn gompostadwy neu'n ocsi-ddiraddadwy.<br>• Esgyrn mawr<br>• Papur cegin<br>• Olewau |

## Atodiad 3 – Cyfeiriadau a Rhestr o Dystiolaeth

**Cyfeiriadau**

---


[i]Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Caerdydd, 2015

[ii]Llywodraeth Cymru, Cynllun y Sector Trefol Rhan 1, Glasbrint Casgliadau, Caerdydd, 2011

[iii] Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Caerdydd, 2010

[iv]Llywodraeth Cymru, Ystadegau: Llesiant Cymru, Caerdydd, 2023

[v] Rheoliad 12 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (fel y'u diwygiwyd 2020)

[vi]Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar Ddefnyddio'r Hierarchaeth Gwastraff, Caerdydd, 2012

[vii] Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti, Caerdydd, 2021

[viii]Llywodraeth Cymru, Cynllun Strategol Sero Net, Caerdydd, 2022

[ix]Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, Adrodd ar Sero Net Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2023, Caerdydd, 2024

[x] Reoliadau (Cymru a Lloegr) Gwastraff a Reolir 2012

[xi]Llywodraeth Cymru, Casgliad Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer, Caerdydd, 2023

[xii] Eunomia Research and Consulting, Global Recycling League Table Phase One Report, Bryste, 2024

[xiii] Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

[xiv]Contract Caffael Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru): Bagiau Gwastraff, Cynhyrchion Ailgylchu a Ffedogau y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

[xv]WRAP Cymru (a baratowyd gan Eunomia Research and Consulting), Adendwm i Effeithiau Gwasanaethau Ailgylchu yng Nghymru ar Newid yn yr Hinsawdd (2016): Effeithiau Carbon – Tagfeydd Traffig yn ystod Casglu, Caerdydd, 2017

[xvi] Eunomia Research and Consulting, Recycling Destinations Data Review, Bristol, March 2016

[xvii] Zero Waste Scotland, Adroddiad esboniadol: The potential health impacts of extending the frequency of non-recyclable waste collections, Stirling, Gorffennaf 2014

[xviii] RPS, Assessment of the relative polluting effects of garden waste bonfires and the collection of garden wastes for centralised composting, Bryste, 2008

[xix]Cyfoeth Naturiol Cymru, Nodi, dosbarthu a rheoli gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs), 2024

[xx] Llywodraeth Cymru, Ystadegau: Tai yng Nghymru (Cyfrifiad 2021), Caerdydd, 2023

[xxi]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tai, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021.
Math o lety yng Nghymru a Lloegr, 2023.

[xxii]WRAP Cymru (a baratowyd gan Resource Futures), Cyfansoddiad Gwastraff o Eiddo Cymunedol yng Nghymru, Caerdydd, 2021

[xxiii]Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Adeiladu 2010: Dogfen Gymeradwy H – Draenio a Gwaredu Gwastraff, Caerdydd, 2010

[xx]WRAP, Canllawiau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HWRC), Banbury, 2018

[xxv] WasteDataFlow, 2022/2023

[xxvi]Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru), 2023

[xxvii]Llywodraeth Cymru, Casgliad Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer, Caerdydd, 2023

[xxviii] Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad, 2021

[xxix] WRAP Cymru, Arolwg Tracio Ailgylchu yng Nghymru: Gwanwyn 2024

[xxx] WRAP Cymru, Fy Ailgylchu Cymru, Caerdydd, 2024

[xxxi]WRAP Cymru (a baratowyd gan Resource Futures), Cyfansoddiad Gwastraff Trefol Cenedlaethol yng Nghymru, Caerdydd, 2023

[xxxii]WRAP Cymru (a baratowyd gan Eunomia Research and Consulting), Effeithiau Gwasanaethau Ailgylchu yng Nghymru ar Newid yn yr Hinsawdd (2016)

[xxxiii] HSE, Waste statistics in Great Britain, 2023

[xxxiv] Cyfoeth Naturiol Cymru, Canllaw Rhif 16 Cynllun atal a lliniaru tân – rheoli gwastraff, Caerdydd, 2017

[xxxv] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, Cyfleusterau Deunyddiau: samplo gwastraff ac adrodd o Hydref 2024, 2023

[xxxv] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Rhestr o’r dystiolaeth na chyfeiriwyd ati’n uniongyrchol**

Confederation of Paper Industries, Quality Counts, Swindon, Mai 2016

Y Comisiwn Ewropeaidd, “Impacts of the collection and treatment of dry recyclables - Commingling practices and their environmental and economic impacts: an analysis based on life-cycle assessment and life-cycle costing”, Mawrth 2024

Eunomia Research and Consulting, Recycling Destinations Data Review, Bryste, 2016

Monksleigh, Review of Material Recovery Facility (MRF) Performance, Taunton, 2015

Renewable Energy Association (a baratowyd gan Eunomia Research and Consulting), The Real Economic Benefit of Separate Bio-waste Collections: A Business Case, Llundain, 2016

Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr), 2012

Llywodraeth Cymru, Canllaw Ymarfer Cynllunio Gwastraff: Dogfen Atodol i Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Caerdydd, 2018

CLlLC (a baratowyd gan Resource Futures), Ymchwil i’r Ddarpariaeth Safleoedd Amwynder Dinesig yng Nghymru, 2012

WRAP (a baratowyd gan Eunomia Research and Consulting), Opsiynau Casgliadau ar Garreg y Drws: Cymru, Atodiad Technegol, Banbury, 2011

WRAP, (a baratowyd gan Resource Futures), Cyfansoddiad gwastraff ar garreg y drws a HWRC swmp, Banbury, 2012

WRAP, Asesu addasrwydd gwydr ôl-ddefnyddwyr mewn cymwysiadau cynwysyddion, Banbury, 2013

WRAP, Optimising the value of digestate and digestion systems, Banbury, 2015

WRAP, Analysis of recycling performance and waste arisings in the UK 2012/13, Banbury, 2015

WRAP (a baratowyd gan Resource Futures), Dadansoddiad o Gyfansoddiad Gwastraff Trefol Cenedlaethol yng Nghymru, Banbury, 2016

WRAP, Taflen wybodaeth: Review: Technologies to optimise the value of digestate, Banbury, 2020

WRAP, AD and Composting Industry Market Survey Report 2020 Final Version, Banbury, 2020